

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru: Trefniadau i Hyrwyddo Cyfle Cyfartal -  
Blwyddyn Ariannol 2003 - 2004**

	<b>Cynnwys</b>	<b>1</b>
<b>Datganiad i'r Cyfarfod Llawn ar drefniadau'r Cynulliad i hyrwyddo cydraddoldeb</b>		<b>2-3</b>
<b>Atodiad A: Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Cyfle Cyfartal 2003- 04</b>		<b>4-12</b>
Ynghylch yr adroddiad hwn Cefndir y Pwyllgor Materion allweddol a ystyriwyd gan y Pwyllgor Cyfle Cyfartal ers mis Mehefin 2003 Blaenoriaethau ar gyfer y Dyfodol Cyrff cyhoeddus sy'n rhoi sylw i hyrwyddo cyfle cyfartal Atodiad A1 - Cylch Gorchwyl Atodiad A2 - Aelodaeth y Pwyllgor Atodiad A3 - Blaenraglen waith ar gyfer y Pwyllgor Cyfle Cyfartal mis Mai 2004 - mis Mai 2005		
<b>Atodiad B: Adroddiad gan Glerc y Cynulliad ar Hyrwyddo Cyfle Cyfartal wrth Gynnal Busnes</b>		<b>13-19</b>
Cyflwyniad Mynediad at Fusnes y Cynulliad Mynediad at Wybodaeth Mynediad Corfforol i'r Cynulliad Gwasanaethau'r Pwyllgorau ac Ymchwil yr Aelodau Mentrau adnoddau dynol yn Swyddfa'r Llywydd		
<b>Atodiad C: Adroddiad ar Waith Llywodraeth Cynulliad Cymru yn Hyrwyddo Cydraddoldeb</b>		<b>20-74</b>
Rhagair gan Syr Jon Shortridge KCB – Ysgrifennydd Parhaol Cyflwyniad Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio: Llywodraeth Leol, Gwasanaethau Cyhoeddus a Diwylliant Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad Rheoli Busnes a Gwybodaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol Swyddfa'r Cwnsler Cyffredinol Arolygiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru Swyddfa'r Prif Swyddog Meddygol Hyfforddiant ac Addysg Datblygiad Economaidd a Thrafnidiaeth Adnoddau Dynol		

## **Datganiad ar Adroddiad Blynyddol y Cynulliad ar Gydraddoldeb a Baratowyd o Dan Adran 120 Deddf Llywodraeth Cymru**

1. Hwn yw pumed adroddiad blynyddol y Pwyllgor Cyfle Cyfartal o dan Reol Sefydlog 14.2 ar drefniadau'r Cynulliad i hyrwyddo cyfleoedd cyfartal ac i ofalu eu bod yn effeithiol. Mae'r adroddiad yn cwmpasu'r flwyddyn ariannol 2003 - 2004. Mae swm a sylwedd yr adroddiad wedi'i gynnwys yn ei dri atodiad:

Atodiad A - adroddiad y pwyllgor ar ei weithgaredd yn y flwyddyn ariannol ddiwethaf;

Atodiad B - Adroddiad gan Glerc y Cynulliad ar Hyrwyddo Cyfle Cyfartal wrth Gynnal Busnes y Cynulliad

Atodiad C - adroddiad ar waith Llywodraeth Cynulliad Cymru yn hyrwyddo cydraddoldeb

2. Mae'r adroddiad blynyddol yn rhoi disgrifiad ffeithiol o gynnydd y gwaith ar gydraddoldeb yn 2003-04, gan gynnwys manylion ar fentrau penodol mewn perthynas â chydraddoldeb sy'n gallu bod yn sail ar gyfer craffu. Mae'r Pwyllgor yn nodi fodd bynnag fod anghysondeb ym manylder yr adroddiadau a gafwyd gan wahanol adrannau polisi Llywodraeth Cynulliad Cymru a bylchau amlwg yn yr wybodaeth a ddarparwyd. Croesawai'r Pwyllgor adroddiad llawnach yn y dyfodol.

3. Roedd y Pwyllgor yn siomedig eto nad oedd adroddiad Llywodraeth Cynulliad Cymru am 2003-04 yn rhoi mwy o dystiolaeth am y modd y caiff cydraddoldeb ei brif ffrydio yn y Cynulliad. Ym mis Gorffennaf 2004, cyhoeddodd y Pwyllgor ei adolygiad polisi, 'Prif Ffrydio Cydraddoldeb yng Ngwaith y Cynulliad Cenedlaethol', a bydd yn ystyried yr ymateb i'r adroddiad hwnnw yn ystod y flwyddyn ariannol 2004-05

4. Mae'r Pwyllgor yn croesawu ymateb cadarnhaol y Gweinidog Busnes, yn ei rôl fel Gweinidog â chyfrifoldeb dros gyfle cyfartal, a'r Ysgrifennydd Parhaol i adolygiad polisi y Pwyllgor ar brif ffrydio cydraddoldeb a'r bwriad i ddatblygu a gweithredu strategaeth prif ffrydio cydraddoldeb dan nawdd Grŵp Gorchwyl a Gorffen Prif-ffrydio Cydraddoldeb Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae'r Pwyllgor yn croesawu'n arbennig y bwriad i drafod archwiliad llawnach ar weithgarwch cydraddoldeb ac i adrodd yn y dyfodol ar sail mesur deilliannau cydraddoldeb yng ngoleuni amcanion a mewnbynnau clir a phenodedig. Mae'r Pwyllgor yn credu y dylai gweithredu argymhellion ei adroddiad arwain at well dealltwriaeth o anghenion amrywiol pobl Cymru ac at ddatblygu polisiâu a gwasanaethau sy'n ymateb i'r anghenion hynny.

### **Blaenoriaethau ar gyfer y dyfodol, 2004-05**

5. Mae'r blaenoriaethau allweddol a nodwyd gan y Pwyllgor yn ei adroddiad blaenorol yn berthnasol o hyd ymlaen i 2004-05 ac ymhellach. Maent yn cynnwys:

- Datblygu strategaeth prif ffrydio effeithiol a fydd yn caniatáu i'r Cynulliad ymgorffori egwyddorion cydraddoldeb ym mhob rhan o'i waith.

- Parhau'r momentwm a grewyd gan y Gyngres Ryngwladol Pobl Ifanc Anabl a gynhaliwyd yn Abertawe yn 2003, drwy fynd ar drywydd y materion a fynegwyd gan bobl ifanc. Bydd adolygiad polisi y Pwyllgor ynghylch y gwasanaethau a ddarperir ar gyfer pobl ifanc anabl yn defnyddio'r arwyddair 'dim byd amdanom hebom' ('nothing about us without us'), a chaiff ei gynghori gan grwp cyfeirio o bobl ifanc anabl.
- Cynorthwyo'r broses o weithredu'n effeithiol y ddeddfwriaeth bresennol ar gydraddoldeb - yn arbennig monitro rhwymedigaeth y Cynulliad i gynhyrchu a gweithredu Cynllun Cydraddoldeb Hiliol sy'n cydymffurfio, fel rhan o'r cyfrifoldeb cyhoeddus o dan y Ddeddf Cysylltiadau Hiliol (Diwygio). Bydd y Pwyllgor hefyd yn cynorthwyo gweithgareddau sy'n gysylltiedig â rheoliadau'r Ddeddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd a gyflwynwyd ar 1 Hydref 2004.
- Ymateb i'r cynigion deddfwriaethol newydd ar draws holl elfennau cydraddoldeb, ac yn arbennig gynigion Llywodraeth y DU ar gyfer un Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol.
- Gwneud cynnydd ar weithredu polisi recriwtio a rhaglen gwaith maes sy'n sicrhau bod y Cynulliad yn parchu'n llawn amrywiaeth pobl Cymru ac yn adlewyrchu'r amrywiaeth hwnnw.

6. Derbyniodd y Pwyllgor ymateb Llywodraeth y Cynulliad i'r adolygiad polisi cyntaf, 'Adolygiad o'r Gwasanaethau a Ddarperir i Sipsiwn a Chrwydriaid', ym mis Mawrth 2004. Bydd yn parhau i fonitro'r broses o weithredu argymhellion yr adroddiad; fe gymer gryn amser i nifer o'r argymhellion ddod i rym. Gobaith y Pwyllgor yw gweld ymdrech barhaol i sicrhau newidiadau a fydd yn gwella'n sylweddol fywydau Sipsiwn a Chrwydriaid yng Nghymru.

7. Ym mis Mawrth 2004 cyfarfu'r Pwyllgor yn anffurfiol i drafod ei weithrediadau yn y dyfodol a'r blaenoriaethau allweddol ar gyfer ei flaenraglen waith. Mae datblygiadau allweddol ar gyfer gwaith yn y dyfodol yn cynnwys galw Gweinidogion i gyfrif yn uniongyrchol am weithredu cydraddoldeb o fewn eu portffolios, gyda'r bwriad o wahodd pob Gweinidog i fynychu o leiaf un cyfarfod y flwyddyn lle creffir ar un o'r materion cydraddoldeb sy'n perthyn i'w portffolio hwy. Bydd y Pwyllgor hefyd yn defnyddio'i amser yn y modd gorau drwy gyfyngu ar nifer y cyflwyniadau gwybodaeth - gan barhau i wahodd siaradwyr amrywiol i fynychu cyfarfodydd, ond gyda chyfraniadau sy'n canolbwyntio ar ddatblygu gwaith y Pwyllgor ym maes craffu neu adolygiad polisi.

8. Mae'r Pwyllgor yn edrych ymlaen at adrodd ar gynnydd ar draws y Cynulliad yn adroddiad blynyddol y flwyddyn nesaf, yn fuan ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol yn 2005.

## **ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PWYLLGOR CYFLE CYFARTAL**

### **YNGHYLCH YR ADRODDIAD HWN**

1. Mae'r adroddiad hwn yn ffurfio rhan o adroddiad blynyddol y Cynulliad ar ei drefniadau i hyrwyddo cyfle cyfartal. Mae'n amlinellu gwaith y Pwyllgor Cyfle Cyfartal yn ystod blwyddyn ariannol 2003 - 2004 a dyma hefyd yr adroddiad llawn cyntaf ar waith y Pwyllgor yn ystod yr Ail Gynulliad.

### **CEFNDIR Y PWYLLGOR**

2. Ffurfiwyd y Pwyllgor Cyfle Cyfartal yn unol â Rheolau Sefydlog y Cynulliad i archwilio trefniadau'r Cynulliad i hybu, wrth gyflawni ei swyddogaethau a rheoli'i fusnes, yr egwyddor y dylid rhoi cyfle cyfartal i bawb. Mae Adran 48 a 120 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998, yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cynulliad hybu'r egwyddor y dylid sicrhau cyfle cyfartal i bawb.

3. Mae cylch gorchwyl y Pwyllgor i'w weld yn Rheol Sefydlog 14 (atodiad A1). Mae rhestr o aelodau'r Pwyllgor i'w gweld yn atodiad A2.

4. Mae gan y Pwyllgor nifer o wahoddedigion sefydlog sy'n rhoi cyngor arbenigol i'r Pwyllgor, sef y Comisiwn Cyfle Cyfartal, y Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol, y Comisiwn Hawliau Anabledd, Stonewall Cymru a Bwrdd yr Iaith Gymraeg.

5. Mae Rheol Sefydlog 14 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Pwyllgor roi sylw arbennig i'r angen i'r Cynulliad osgoi gwahaniaethu ar sail rhyw, hil neu anabledd. Gan barhau i ganolbwyntio ar hyn, mae'r Pwyllgor hefyd yn rhoi sylw i fathau eraill o wahaniaethu ac allgáu cymdeithasol gan gynnwys oed, credoau crefyddol a thueddfryd rhywiol.

6. Cafodd y Pwyllgor Cyfle Cyfartal newydd ei ethol ar 3 Mehefin 2003. Mae rhestr o aelodau'r Pwyllgor yn Atodiad A2. Mae'r paragraffau a ganlyn yn amlygu'r gwaith a wnaed yn ystod 2003-04, ynghyd â'r blaenoriaethau ar gyfer y dyfodol.

### **MATERION ALLWEDDOL A YSTYRIWYD GAN Y PWYLLGOR CYFLE CYFARTAL ERS MIS MEHEFIN 2003**

#### **Adolygiad o'r Gwasanaethau a Ddarperir ar gyfer Sipsiwn a Chrwydrwyr**

7. Cynhaliodd y Pwyllgor Cyfle Cyfartal blaenorol Adolygiad o'r Gwasanaethau a Ddarperir ar gyfer Sipsiwn a Chrwydrwyr. Cyflwynwyd yr adroddiad gerbron y Cynulliad ychydig cyn etholiad y Cynulliad a chyhoeddwyd copi caled ddiwedd mis Mehefin.

8. Ystyriwyd ymateb Llywodraeth y Cynulliad i'r adroddiad yn ein cyfarfod ar 4 Mawrth.

#### **Prif Ffrydio Cydraddoldeb**

9. Yn ei adolygiad polisi cyntaf, penderfynodd y Pwyllgor asesu llwyddiant y Cynulliad i brif ffrydio cydraddoldeb. Aethom ati i ymgynghori ar y pwnc yn ystod yr haf gan hefyd ddechrau cyfres o sesiynau tystiolaeth.

#### **Blwyddyn Ewropeaidd Pobl Anabl**

10. Mae 2003 yn Flwyddyn Ewropeaidd Pobl Anabl a rhoddodd Rhian Davies, Cadeirydd Grŵp Hwyluso Cymru ar gyfer Blwyddyn Ewropeaidd Pobl Anabl 2003, gyflwyniad i'r Pwyllgor yn amlinellu cynlluniau i ddathlu'r flwyddyn yng Nghymru. Yn dilyn hyn, cymerwyd y camau a ganlyn: ysgrifennu at Weinidogion i'w hannog i gyfarfod â'r Grŵp Hwyluso; gofyn i'r Gweinidog Busnes drefnu cyfres o drafodaethau yn y Cyfarfod Llawn i ymdrin â materion yn ymwneud â'r Flwyddyn a dosbarthu manylion y digwyddiadau a drefnwyd ar hyd a lled Cymru i'r holl Aelodau.

11. Clywsom hefyd gan rai o'r bobl ifanc sy'n rhan o'r gwaith o drefnu'r Gynghrair Ryngwladol Gyntaf ar gyfer Pobl Ifanc Anabl a gynhaliwyd yn Abertawe yr haf hwn. Mewn adolygiad polisi yn yr hydref, rydym yn bwriadu ymdrin â'r materion hynny yr oedd y bobl ifanc yn credu y dylid rhoi blaenoriaeth iddynt er mwyn gwella'u bywydau.

#### **Ymgynghoriad Llywodraeth y DU ar Bartneriaethau Sifil - Fframwaith ar gyfer rhoi cydnabyddiaeth gyfreithiol i gyplau o'r un rhyw**

12. Cynhaliodd Llywodraeth y DU ymgynghoriad ar roi cydnabyddiaeth gyfreithiol i gyplau o'r un rhyw yn gynharach eleni. Trafodwyd y cynigion a lluniwyd ymateb ffurfiol i'r ymgynghoriad. Byddwn yn dilyn hynt y ddeddfwriaeth yn y maes hwn gyda diddordeb.

#### **Ymgynghoriad Llywodraeth y DU 'Equality and Diversity: Age Matters'**

13. Aeth Llywodraeth y DU hefyd ati i ymgynghori ar gynigion i weithredu'r Cyfarwyddebau Cyflogaeth Ewropeaidd. Estynnwyd gwahoddiad i'r Adran Masnach a Diwydiant ac Age Concern Cymru i gyfrannu i'r drafodaeth ar y mater hwn ac i'n cynorthwyo wrth inni lunio ymateb i'r ymgynghoriad.

#### **Cydbwysedd rhwng dynion a merched mewn awdurdodau lleol ac adroddiad blynyddol Uned Cydraddoldeb Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC)**

14. Cynhaliodd y Pwyllgor drafodaeth fuddiol iawn â chynrychiolwyr o'r CLILC ynghylch adroddiad blynyddol eu Huned Cydraddoldeb ac ynghylch cydbwysedd rhwng dynion a merched mewn awdurdodau lleol. Fel rhan o'n hadolygiad o brif ffrydio cydraddoldeb edrychwn ymlaen at ystyried y gwersi y bydd modd inni eu dysgu gan y sector cyhoeddus ehangach o ran gweithredu Safon Cydraddoldeb Llywodraeth Leol.

#### **Cynllun Cydraddoldeb Hiliol Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

15. Roeddem yn falch o gael ystyried Cynllun Cydraddoldeb Hiliol diwygiedig y Cynulliad yn ein cyfarfod cyntaf yn ystod tymor yr hydref. Bydd y ddogfen hon, sy'n cynnwys manylion y camau sydd i'w cymryd ar draws y Cynulliad, yn bwysig o ran bwrw ymlaen â'r agenda cydraddoldeb.

16. Edrychwn ymlaen at weld canlyniadau'r ymgynghoriad a'r cynllun diwygiedig.

## **BLAENORIAETHAU AR GYFER Y DYFODOL**

17. Mae blaenraglen waith ynghlwm yn atodiad A3, ond bydd y blaenoriaethau allweddol yn cynnwys:

- adolygu'r polisi o brif ffrydio cydraddoldeb;
- gwaith yn dilyn yr Adolygiad o'r Gwasanaethau a Ddarperir ar gyfer Sipsiwn a Chrwydrwyr;
- galluogi pobl anabl i ddefnyddio gwasanaethau;
- amrywiaeth mewn penodiadau cyhoeddus;
- materion lloches

## **CYRFF CYHOEDDUS SY'N YMWNEUD Â HYRWYDDO CYFLE CYFARTAL**

### **Y Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol**

18. Yn unol â Rheol Sefydlog 6.6, ystyriodd y Pwyllgor Adroddiad Blynyddol y Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol ar 2 Hydref 2003. Dyma'r prif faterion a gododd o'r adroddiad:

- cydweithio ag awdurdodau cyhoeddus i sicrhau eu bod yn deall eu cyfrifoldebau o dan Ddeddf Cysylltiadau Hiliol (Diwygio) 2000;
- hyrwyddo cydraddoldeb hiliol gyda'r sector busnes;
- gwella'r broses o ymgynghori â chymunedau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig;
- prif ffrydio cydraddoldeb hiliol yn y fframwaith archwilio ac arolygu;
- moderneiddio gwasanaethau cydraddoldeb hiliol lleol.

### **Y Comisiwn Hawliau Anabledd**

19. Yn unol â Rheol Sefydlog 6.6, ystyriodd y Pwyllgor Adroddiad Blynyddol y Comisiwn Hawliau Anabledd ar 6 Tachwedd 2003. Dyma'r prif faterion a gododd o'r adroddiad:

- cynyddu'r galw am wasanaethau cynghori drwy linell gymorth y Comisiwn;
- meithrin dull strategol o ymdrin â gwaith achos cyfreithiol;
- mynd i'r afael â gwahaniaethu o ran cyflogaeth;
- hyrwyddo codau ymarfer a chanllawiau ar fynediad wrth baratoi i roi ar waith ddeddfwriaeth newydd ar wahaniaethu ar sail anabledd;
- cefnogi rhwydwaith o bobl ifanc anabl yn sgil y Gyngres Ryngwladol a gynhaliwyd yn Abertawe.

### **Y Comisiwn Cyfle Cyfartal**

20. Yn unol â Rheol Sefydlog 6.6, ystyriodd y Pwyllgor Adroddiad Blynyddol y Comisiwn Cyfle Cyfartal ar 1 Rhagfyr 2003. Dyma'r themâu allweddol:

- cydraddoldeb yn y gwaith, gan gynnwys cau'r bwch cyflog, mynd i'r afael â gwahaniaethu ar sail beichiogrwydd a rhoi terfyn ar wahanu galwedigaethol;

- prif ffrydio cydraddoldeb mewn gwasanaethau cyhoeddus drwy gyllidebu ar sail rhyw;
- gwella mynediad at wasanaethau cynghori;
- cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith.

## **CYLCH GORCHWYL Y PWYLLGOR**

### **DYFYNIADAU O DDEDDF LLYWODRAETH CYMRU 1998**

Adran 48

(1) Bydd y Cynulliad yn gwneud trefniadau priodol gyda'r bwriad o sicrhau bod ei fusnes yn cael ei reoli gyda sylw dyladwy i'r egwyddor y dylid rhoi cyfle cyfartal i bawb.

Adran 120

(1) Bydd y Cynulliad yn gwneud trefniadau priodol gyda'r bwriad o sicrhau bod ei swyddogaethau'n cael eu cyflawni gyda sylw dyladwy i'r egwyddor y dylid rhoi cyfle cyfartal i bawb.

(2) Ar ôl pob blwyddyn ariannol bydd y Cynulliad yn cyhoeddi adroddiad sy'n cynnwys:

a) Datganiad o'r trefniadau a wnaed yn unol ag is-adran (1) a oedd mewn grym yn ystod y flwyddyn ariannol honno; a

b) Datganiad ynghylch pa mor effeithiol y bu'r trefniadau hynny mewn hyrwyddo cyfle cyfartal.

### **RHEOL SEFYDLOG 14 - Y Pwyllgor Cyfle Cyfartal**

#### **Teitl a Chylch Gwaith**

14.1 Bydd Pwyllgor Cyfle Cyfartal, a rhaid iddo archwilio trefniadau'r Cynulliad ar gyfer hybu, wrth arfer ei swyddogaethau a chynnal ei fusnes, egwyddor cyfle cyfartal ar gyfer pawb. Rhaid i'r Pwyllgor hefyd roi sylw arbennig i'r angen i'r Cynulliad osgoi gwahaniaethu yn erbyn unrhyw berson ar sail hil, rhyw neu anabledd.

14.2 Rhaid i'r Pwyllgor gyflwyno adroddiad blynyddol i'r Cynulliad ar y trefniadau hynny a'u heffeithiolrwydd. Rhaid iddo hefyd adolygu'r Adroddiadau Blynyddol a gyflwynir i'r Cynulliad gan gyrff cyhoeddus sy'n ymwneud â hybu cyfle cyfartal ac adrodd ei gasgliadau am yr adroddiadau hynny i'r Cynulliad.

#### **Aelodaeth**

14.3 Rhaid i'r Cynulliad ethol aelodau'r Pwyllgor gan dalu sylw i'r fantais o gael cynrychiolaeth o bob Pwyllgor Pwnc ar y Pwyllgor a sicrhau, cyn belled ag y bo'n ymarferol, fod cydbwysedd y grwpiau gwleidyddol yn y Cynulliad yn cael ei adlewyrchu yn ei aelodaeth. Rhaid i'r Cynulliad ethol un o aelodau'r Pwyllgor i gadeirio'r Pwyllgor ond ni chaiff ei gadeirio gan Weinidog.

14.4 Caniateir i aelod o'r Pwyllgor sydd wedi rhoi hysbysiad ymlaen llaw i'r cadeirydd gael ei gynrychioli mewn cyfarfod, neu ran o gyfarfod, o'r Pwyllgor gan Aelod arall o'r un grŵp gwleidyddol sydd wedi'i enwi ymlaen llaw. Wrth roi'r cyfryw hysbysiad, rhaid i'r Aelod nodi'r rheswm dros yr angen am gael rhywun i gymryd ei le. Caiff yr aelod a enwebir gymryd rhan yn y cyfarfod ym mhob agwedd fel pe bai ef neu hi yn aelod o'r Pwyllgor. Ni chaiff unrhyw Aelod gynrychioli mwy nag un aelod Pwyllgor mewn cyfarfod.

14.5 Caiff aelodau nad ydynt yn aelodau o Bwyllgor Pwnc fynychu cyfarfodydd y Pwyllgor pan fydd y rhain yn gyfarfodydd cyhoeddus. Cyn unrhyw gyfarfod, caiff unrhyw Aelodau Cynulliad sydd â buddiannau etholaethol neu ranbarthol penodol i fynd ar eu trywydd mewn perthynas â gwaith y Pwyllgor geisio caniatâd y cadeirydd i wneud sylwadau i'r Pwyllgor yn y cyfarfod hwnnw; ond ni chânt bleidleisio. Hefyd, caiff Aelodau Cynulliad ysgrifennu at y cadeirydd a gofyn bod eu sylwadau ar unrhyw agwedd ar waith y Cynulliad yn cael eu cyflwyno i'w hystyried gan y Pwyllgor yn ei gyfarfod nesaf; a rhaid i'r cadeirydd drefnu i'r cyfryw gyflwyno ddigwydd.

14.6 Heb ragfarnu Rheol Sefydlog 8.17, rhaid i'r Pwyllgor, o bryd i'w gilydd, benodi'r cynghorwyr y bydd eu hangen arno er mwyn i sylwadau grwpiau lleiafrifol neu grwpiau dan anfantais allu cael eu cyflwyno iddo.

### **Adroddiadau**

14.7 Yn ogystal â chyflwyno ei adroddiad blynyddol caiff y Pwyllgor gyflwyno adroddiadau eraill i'r Cynulliad o bryd i'w gilydd.

**AELODAU'R PWYLLGOR CYFLE CYFARTAL YN YR AIL GYNULLIAD**

<b>ENW</b>	<b>DYDDIADAU</b>	<b>PLAID</b>	<b>ETHOLAETH</b>
Gwenda Thomas (Cadeirydd)	Mehefin 03 - hyd yma	Llafur	Castell-nedd
Lorraine Barrett	Mehefin 03 - hyd yma	Llafur	De Caerdydd a Phenarth
David Davies	Mehefin 03 - hyd yma	Ceidwadwyr	Sir Fynwy
Lisa Francis	Mehefin 03 - Ionawr 04	Ceidwadwyr	Canolbarth a Gorllewin Cymru
John Griffiths	Mehefin 03 - hyd yma	Llafur	Dwyrain Casnewydd
Helen Mary Jones	Mehefin 03 - hyd yma	Plaid Cymru	Canolbarth a Gorllewin Cymru
Laura Anne Jones	Ionawr 04 - hyd yma	Ceidwadwyr	Dwyrain De Cymru
Huw Lewis	Mehefin 03 - hyd yma	Llafur	Merthyr Tudful a Rhymni
Jenny Randerson	Mehefin 03 - hyd yma	Democratiaid Rhyddfrydol	Canol Caerdydd
Catherine Thomas	Mehefin 03 - hyd yma	Llafur	Llanelli
Leanne Wood	Mehefin 03 - hyd yma	Plaid Cymru	Canol De Cymru

**Sylwch:**

- Etholwyd y Pwyllgor ar 3 Mehefin 2003

**BLAENRAGLEN WAITH Y PWYLLGOR CYFLE CYFARTAL MAI 2004 - MAI 2005**

Mae gofyn i'r Pwyllgor, yn unol â'r Rheolau Sefydlog, ystyried yr eitemau canlynol:

- Adroddiad Blynyddol y Cynulliad ar gydraddoldeb, sy'n cynnwys adroddiad blynyddol y Pwyllgor - ar ôl pob blwyddyn ariannol.
- Adroddiadau blynyddol y comisiynau cydraddoldeb statudol - tymor yr hydref

Bydd y Pwyllgor yn ystyried yr eitem ganlynol yn rheolaidd:

- Y cynigion Ewropeaidd a gafodd eu gosod yn senedd y DU ers cyfarfod diwethaf y Pwyllgor - ym mhob cyfarfod lle bo dogfennau perthnasol i'w hystyried.

Adolygiadau polisi:

- Prif ffrydio cydraddoldeb - bydd y Pwyllgor yn paratoi fersiwn derfynol yr adroddiad ac yn ystyried ymateb y Llywodraeth yn ei dro
- Gwasanaethau i bobl ifanc anabl - adolygiad polisi newydd
- Gwasanaethau i Sipsiwn a Chrwydriaid - ystyried ymateb y Llywodraeth ymhellach

Yn ogystal â'r eitemau rheolaidd a nodwyd, bydd y Pwyllgor hefyd yn ystyried y materion canlynol:

- Y problemau sy'n wynebu ceiswyr lloches a ffoaduriaid
- Cynllun Cydraddoldeb Hiliol y Cynulliad
- Strategaeth recriwtio'r Cynulliad
- Yr Ymgyrch Cyflog Cyfartal
- Ystyried rhaglen EQUAL
- Gwaith yn dilyn cyflwyniad CLILC ar gydbwysedd y rhywiau mewn awdurdodau lleol ac Adroddiad Blynyddol Uned Gydraddoldebau CLILC
- Y diweddaraf am y cynlluniau ar gyfer Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol
- Darparu toiledau cyhoeddus - goblygiadau o ran cydraddoldeb
- Materion sy'n ymwneud â chyfathrebu a BSL
- Penodiadau Cyhoeddus
- Plant - trafodaeth ac adroddiad blynyddol y Comisiynydd Plant

Mae manylion pellach y rhaglen ar gyfer pob tymor wedi eu nodi yn y tabl isod.

<b>Amserlen</b>	<b>Eitem</b>
-----------------	--------------

Amserlen	Eitem
Haf 04	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Adroddiad terfynol y Pwyllgor ar brif ffrydio cydraddoldeb</li> <li>• Adolygiad polisi - gwasanaethau i bobl ifanc anabl</li> <li>• Ystyried ymhellach ymateb y Llywodraeth i adroddiad y Pwyllgor ar wasanaethau i Sipsiwn a Chrwydriaid</li> <li>• Y problemau sy'n wynebu ceiswyr lloches a ffoaduriaid – trafod â Gweinidogion</li> <li>• Ystyried cynllun terfynol y Cynulliad ar Gydraddoldeb Hiliol</li> <li>• Ystyried strategaeth recriwtio derfynol y Cynulliad a thrafodaeth gyda'r Ysgrifennydd Parhaol a'r Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol newydd</li> <li>• Y diweddaraf am yr Ymgyrch Cyflog Cyfartal</li> <li>• Y diweddaraf am y cynlluniau ar gyfer Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol</li> <li>• Ystyried Rhaglenni Gwaith Strategol Pwyllgorau eraill</li> <li>• Ystyried rhaglen EQUAL</li> <li>• Ymgynghori ar y Cynllun Gweithredu ar Ddatblygu Cynaliadwy</li> <li>• Toiledau cyhoeddus - ystyried y goblygiadau o ran cydraddoldeb</li> <li>• Gwaith yn dilyn cyflwyniad CLILC ar gydbwysedd y rhywiau mewn awdurdodau lleol ac Adroddiad Blynyddol Uned Gydraddoldebau CLILC</li> <li>• Y diweddaraf am y Mesur Partneriaethau Sifil</li> <li>• Y pumed Adroddiad Blynyddol ar Gydraddoldeb</li> <li>• Cynigion Ewropeaidd a adneuwyd yn Senedd y DU</li> </ul>
Hydref 04	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Adolygiad polisi - gwasanaethau i bobl ifanc anabl</li> <li>• Y pumed Adroddiad Blynyddol ar Gydraddoldeb</li> <li>• Adroddiadau blynyddol y comisiynau cydraddoldeb statudol</li> <li>• Y diweddaraf am y cynlluniau ar gyfer Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol</li> <li>• Materion sy'n ymwneud â chyfathrebu a BSL</li> <li>• Ymateb Llywodraeth y Cynulliad i adroddiad y Pwyllgor ar brif ffrydio cydraddoldeb</li> <li>• Ymateb y Llywodraeth i arolwg Stonewall Cymru, sef 'Eich Cyfrif neu'ch Eithrio'</li> <li>• Penodiadau Cyhoeddus - trafodaeth ac adroddiad blynyddol y Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus</li> <li>• Cynigion Ewropeaidd a adneuwyd yn Senedd y DU</li> </ul>
Gwanwyn 05	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Adolygiad polisi - gwasanaethau i bobl ifanc anabl</li> <li>• Cydbwysedd rhwng y rhywiau mewn awdurdodau lleol</li> <li>• Cyflwyniad gan Chwarae Teg</li> <li>• Plant - trafodaeth ac adroddiad blynyddol y Comisiynydd Plant</li> <li>• Y diweddaraf am yr Ymgyrch Cyflog Cyfartal</li> <li>• Cynigion Ewropeaidd a adneuwyd yn Senedd y DU</li> </ul>

## Adroddiad y Clerc ar Hyrwyddo Cyfle Cyfartal wrth Gynnal Busnes y Cynulliad

### 1. Cyflwyniad

- 1.1 Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu'r gwaith a wnaed gan Swyddfa'r Llywydd, sy'n awr yn cael ei alw'n Wasanaeth Seneddol y Cynulliad (GSC), i hyrwyddo cyfle cyfartal wrth gynnal busnes y Cynulliad (adran 48 o Ddeddf Llywodraeth Cymru) o'r cyfnod rhwng mis Ebrill 2003 a mis Mawrth 2004.
- 1.2 Mae Datganiad Corfforaethol Swyddfa'r Llywydd ar gyfer 2003-04, yn egluro cyd-destun ein gwaith. Ein nod yw rhoi'r gwasanaeth gorau bosibl i'r holl Aelodau gyda'r adnoddau sydd ar gael inni. Disgwyliaidau'r Aelodau sy'n llywio'r gwasanaeth sydd wedi'i seilio ar arfer gorau mewn sefydliadau eraill. Ein nod yw gwella ac ychwanegu'n barhaus at y gwasanaethau yr ydym yn eu darparu.
- 1.3 Yn Nodau ac Amcanion Swyddfa'r Llywydd ceir manylion am y ffordd y byddwn yn cyrraedd ein nod ac maent yn cyfeirio'n benodol at y canlynol:
- Byddwn yn cynyddu dealltwriaeth, gwybodaeth ac ymwybyddiaeth pobl ar hyd a lled Cymru mewn perthynas â'r Cynulliad, gan ymdrechu i sicrhau bod y Cynulliad o fewn cyrraedd pawb.
  - Byddwn yn darparu gwasanaethau a chymorth dwyieithog o'r radd flaenaf i'r Aelodau a'r staff; yn gweithredu datganiad polisi dwyieithog ar gyfer Swyddfa'r Llywydd, ac yn cynorthwyo'r Cynulliad â'r gwaith o gyflawni'i ddyletswydd statudol o dan adran 48 o Ddeddf Llywodraeth Cymru.
  - Byddwn yn dangos ein hymrwymiad i arfer gorau o ran hybu amrywiaeth ymhlith Swyddfa'r Llywydd ac o ran darparu gwasanaethau, yn unol â'r egwyddor o sicrhau cyfle cyfartal i bawb o dan adran 48 o Ddeddf Llywodraeth Cymru a rhwymedigaethau statudol eraill.
- 1.4 Wrth ddatblygu'r Cynllun Cydraddoldeb Hiliol cawn gyfle i edrych yn agosach ar y gwasanaethau y mae Swyddfa'r Llywydd yn eu darparu ac ystyried a yw materion cydraddoldeb yn cael eu hystyried yn ddigonol. Rydym wedi ymrwymo i gyfres o fesurau i hybu cydraddoldeb hiliol a byddwn yn defnyddio'r gwersi a ddysgwyd i hybu agweddau eraill ar gydraddoldeb.
- 1.5 Fel Clerc y Cynulliad mae gennyf gyfrifoldeb personol dros sicrhau bod y Cynulliad yn fan lle mae gan bobl gyfle cyfartal, p' un ai eu bod yn ymweld â'r Cynulliad, yn cymryd rhan yn y gweithgareddau, yn ymgeisio am swydd neu'n gweithio i'r Cynulliad eisoes, ac rwy'n cymryd y cyfrifoldeb hwnnw o ddifrif.

## **2. Gwybodaeth am Fusnes y Cynulliad**

### **2.1 Adolygiad o 2003-04**

2.1.1 Caiff papurau'n ymwneud â busnes y cyfarfod llawn a'r pwyllgorau eu cyhoeddi ar wefan y Cynulliad yn Saesneg ac yn Gymraeg. Mae copïau papur o'r agendâu dyddiol ar gael i'r cyhoedd eu gweld yn y Dderbynfa / Desg Wybodaeth yn Neuadd y Cynulliad. Mae Cofnod y Trafodion yn dal yn cael eu cyhoeddi yn y ddwy iaith ac rydym wedi ymrwymo i ddarparu gwasanaethau o'r radd flaenaf yn Saesneg ac yn Gymraeg ac i drin y ddwy iaith ar sail cydraddoldeb yn ôl gofynion Deddf Llywodraeth Cymru, Deddf yr Iaith Gymraeg a Datganiad Iaith Gymraeg drafft Swyddfa'r Llywydd a ddisodlwyd gan Ddatganiad Gwasanaethau Dwyieithog GSC. .

2.1.2 Mae'r papurau ar gael yn Saesneg ac yn Gymraeg, ac yn Braille os gofynnir am hynny, yng nghyfarfodydd y pwyllgorau rhanbarth.

2.1.3 Cafodd Gwasanaeth Dehongli dros y Ffôn ar gyfer Llinell Wybodaeth a Llinell Archebu'r Cynulliad ei weithredu. Bydd gwasanaeth ar gael mewn Somalieg, Wrddw, Arabeg, Punjabi, Mandarin, Hindi, Gwjarati a Bengali

2.1.4 Cynhaliwyd adolygiad o'r ddarpariaeth yn y Siambr ar gyfer yr Aelodau â nam ar eu clyw yn ystod 2003-04. Roedd hyn yn cynnwys profi cyfarpar acwstig newydd a gafodd ei dreialu gan Aelodau'r Cynulliad

## **3. Gweld Gwybodaeth**

### **3.1. Adolygiad o 2003-04**

Mae Gwasanaeth Cyfathrebu'r Cynulliad yn gyfrifol am sicrhau bod ystod eang o wybodaeth ar gael am fusnes y Cynulliad a'r gwasanaeth y mae'n ei ddarparu.

3.1.1 Caiff yr holl ddogfennau sy'n rhoi gwybodaeth i'r cyhoedd eu cyhoeddi yn Saesneg ac yn Gymraeg gan Wasanaeth Cyfathrebu'r Cynulliad ac maent hefyd ar gael mewn fformatau eraill yn unol â Chanllawiau'r Cynulliad. Hefyd, gofynnir am gyngor ac arweiniad Cydgysylltydd Mynediad y Cynulliad i sicrhau bod yr holl gyhoeddiadau'n cydymffurfio â deddfwriaeth ac arfer gorau o ran cydraddoldeb.

3.1.2 Mae'r daflen gyffredinol, 'Eich Arweiniad Chi i'r Cynulliad' ar gael mewn ieithoedd eraill. Y mae'n awr ar gael mewn Arabeg, Iseldireg; Ffrangeg, Almaeneg; Gwjarati; Hindi; Eidaleg; Siapanëeg; Portiwgëeg; Somali; Sbaeneg; Swahili ac Wrddw wedi i bum iaith ychwanegol gael eu hychwanegu yn ystod 2003-04.

3.1.3 Mae modd trefnu gwasanaeth i'r cyhoedd gan Wefuslefarwyr a Dehonglwyr Iaith Arwyddion Prydain yn y Cyfarfodydd Llawn a chyfarfodydd y

Pwyllgorau os gofynnir amdano, ac ar gyfer teithiau o amgylch y Cynulliad. Polisi'r Cynulliad ar hyn o bryd yw y dylid rhoi pythefnos o rybudd ar gyfer gwasanaeth o'r math hwn.

3.1.4 Mae gan y Cynulliad Cenedlaethol wasanaeth ffôn-destun ar gyfer ymholiadau ar y Llinell Wybodaeth a'r Llinell Archebu. Mae gan y Cydgysylltydd Mynediad hefyd wasanaeth ffôn-destun ar gyfer cyfathrebu â chwsmeriaid, a chyrrff sy'n darparu gwasanaethau i bobl fyddar a phobl sydd â nam ar eu clyw.

3.1.5 Mae systemau dolenni sain wedi'u gosod ym mhrif ddesgiau'r Dderbynfa yn adeilad y Cynulliad, adeilad y Pierhead a Neuadd Arddangos y Gogledd ym Mae Colwyn. Mae systemau dolenni sain hefyd ar gael ym mhob Ystafell Bwyllgora, oriel gyhoeddus y Siambr ac Ystafelloedd Cynadledda A a B.

3.1.6 Caiff cyfieithiadau o'r Saesneg i'r Gymraeg ac i'r gwrthwyneb eu darparu i alluogi siaradwyr i ddefnyddio'u dewis iaith yn y Cynulliad, ac mae gwasanaethau dehongli ar gael o'r Gymraeg i'r Saesneg. Mae TermCymru, cronfa ddata o derminoleg y Cynulliad, a lanswyd fis Ionawr 2004, ac a gyhoeddir ar wefan y Cynulliad, yn awr yn hybu'r defnydd o'r Gymraeg. Mae hyn yn gyfraniad ychwanegol i alluogi'r Cynulliad i gynnal ei fusnes yn ddwyieithog ac i rannu arbenigedd y Cynulliad â chynulleidfa ehangach.

## **3.2. Nodau ac Amcanion ar gyfer 2004-05**

3.2.1 Cynnal archwiliad o'r cynlluniau ar gyfer presenoldeb y Cynulliad mewn digwyddiadau oddi allan i adeiladau'r Cynulliad i sicrhau eu bod yn rhoi ystyriaeth lawn i faterion yn ymwneud â mynediad a chydaddoldeb.

3.2.2 Treialu meddalwedd adnabod llais ar gyfer swyddogion sy'n defnyddio systemau Cofnod y Trafodion cyn mis Ebrill 2005 ac archwilio'r posibilrwydd o gyflwyno'r dechnoleg i leihau'r gwaith teipio sydd ei angen.

3.2.3 Ystyried cyflwyno Cofnod y Trafodion mewn fformatau gwahanol er mwyn iddo fod ar gael i ragor o bobl.

3.2.4 Bydd y Gangen Addysg a Gwybodaeth i'r Cyhoedd yn Cynnal adolygiad o gydraddoldeb a chynhwysiant cymdeithasol yng Nghanolfan Arddangos y Cynulliad i weld a yw'n cynrychioli holl amrywiaeth diwylliant Cymru yn llawn.

- Monitro faint o daflenni mewn ieithoedd lleiafrifol sy'n cael eu dosbarthu a faint sy'n gofyn amdanynt dros y we.
- Gofalu bod gwybodaeth a chyhoeddiadau sy'n cael eu paratoi gan y gwasanaeth yn rhoi'r ystyriaeth briodol i gyfle cyfartal i bobl o gymunedau Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig.
- Cynnal/comisiynu astudiaeth dichonoldeb o adnodd ychwanegol sef taith sain o amgylch Canolfan Arddangos y Cynulliad. Byddai hyn yn darparu taith sain mewn iaith ethnig leiafrifol a ddefnyddir yng Nghymru yn ogystal â Chymraeg a Saesneg.

- Er mwyn sicrhau cyfle cyfartal yn seremoni agoriadol Siambr newydd y Cynulliad, bydd cyfle i ymgynghori â rhanddeiliaid allweddol Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig i weld a oes cyfle i hybu cysylltiadau hiliol yn ystod gweithgareddau'r dydd.
- Cynhyrchu'r daflen "Eich Arweiniad Chi i'r Cynulliad" ar fformat laith Arwyddion Prydain i asesu a oes angen cynhyrchu cyhoeddiadau'r Cynulliad ar y fformat hwn i'r rheini sy'n defnyddio laith Arwyddion yng Nghymru.
- Cysylltu â chynghorau cydraddoldeb hiliol ar hyd a lled Cymru er mwyn codi ymwybyddiaeth o wasanaethau ieithoedd lleiafrifol fel y cyhoeddiadau sydd wedi'u cyfieithu a'r gwasanaethau y mae'r Llinell Wybodaeth yn eu cynnig.

3.2.5 Cynorthwyo'r Pwyllgor Cyfle Cyfartal i lansio a chyhoeddi Adolygiad y Pwyllgor o hawliau pobl ifanc anabl.

3.2.6 Gweithio gyda RNID i godi ymwybyddiaeth o'r gwasanaeth Typetalk i'w gwneud yn haws i bob fyddar gysylltu â'r Cynulliad.

## **4. Mynediad Corfforol i'r Cynulliad**

### **4.1 Adolygiad o 2003-04**

4.1.1 Mae'r Cynulliad yn bresennol mewn digwyddiadau cenedlaethol yn ystod misoedd yr haf, megis y Sioe Amaethyddol Frenhinol Cymru a'r Eisteddfod Genedlaethol, gydag arddangosfa sy'n cynrychioli gwaith y Cynulliad. Cafodd cyfleusterau'r arddangosfa eu harchwilio er mwyn gwella hygyrchedd a chynhwysiant cymdeithasol.

4.1.2 Caiff nifer o gyfarfodydd rhanbarth y Cynulliad eu cynnal ar hyd a lled Cymru. Mae hygyrchedd yn un o'r ystyriaethau allweddol wrth ddewis lleoliadau addas.

4.1.3 Wrth ailgynllunio mynedfa a derbynfa adeilad y Cynulliad, gwella hygyrchedd oedd un o'r amcanion craidd.

4.1.4 Mae cadeiriau arbennig ar gael i alluogi defnyddwyr cadeiriau olwyn i adael yr adeilad os bydd tân ac mae'r staff wedi cael hyfforddiant i ddysgu sut i'w defnyddio.

4.1.5 Mae cynllun ar gael sy'n rhoi cymhorthdal tuag at y gost o gludo plant ysgol i ymweld â'r Cynulliad o ardaloedd o'r tu allan i'r ardal leol.

### **4.2. Nodau ac Amcanion ar gyfer 2004-05**

4.2.1 Wrth gynllunio presenoldeb y Cynulliad mewn digwyddiadau oddi allan i adeiladau'r Cynulliad, rhoddir ystyriaeth lawn i gynhwysiant.

4.2.2 Bydd holl staff rheng flaen newydd yn mynd ar sesiynau penodol i godi ymwybyddiaeth o gydraddoldeb i bobl anabl er mwyn cynnal a chodi dealltwriaeth o'u hanghenion.

## **5. Gwasanaethau'r Pwyllgorau ac Ymchwil yr Aelodau**

### **5.1 Adolygiad o 2003-04**

5.1.1 Mae Gwasanaethau'r Pwyllgorau ac Ymchwil yr Aelodau yn rhoi cymorth ac arweiniad i bwyllgorau pwnc a phwyllgorau sefydlog y Cynulliad ynghyd â gwasanaeth ymchwil adweithiol i'r Aelodau Cynulliad unigol.

5.1.2 Gall y pwyllgorau gyfrannu'n sylweddol i gyfle cyfartal drwy eu gwaith ym maes datblygu polisiâu. Bydd y pwyllgorau'n ymgynghori â chyrff sy'n allweddol i faterion cydraddoldeb ac estynnir gwahoddiad iddynt yn aml i gyfarfodydd y pwyllgorau. Mae'r comisiynau cydraddoldeb statudol a Stonewall Cymru yn wahoddedigion sefydlog i'r Pwyllgor Cyfle Cyfartal.

5.1.3 Cynhaliodd y Pwyllgor Cyfle Cyfartal adolygiad polisi i weld pa mor effeithiol roedd y Cynulliad yn prif ffrydio cydraddoldeb. Edrychodd y Pwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio ar Dai i Bobl Hŷn, a dechreuodd y Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes ei adolygiad o ddarpariaeth Anghenion Arbennig. Cwblhaodd Pwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad ei archwiliad o'r agweddau cynllunio sy'n gysylltiedig â thai fforddiadwy a chymunedau cynaliadwy yng nghefn gwlad.

5.1.4 Cynhyrchodd Gwasanaethau'r Pwyllgorau ac Ymchwil yr Aelodau dros 80 darn o ymchwil i Aelodau'r Cynulliad a'r Pwyllgorau ar faterion yn ymwneud â chydraddoldeb.

5.1.5 Aildrefnwyd Llyfrgell yr Aelodau i'w wneud yn fyw hygyrch ac yn haws i'w defnyddio.

5.1.6 Wrth gynnig ei wasanaeth ymchwil i'r pwyllgorau ac i Aelodau unigol, mae Gwasanaethau'r Pwyllgorau ac Ymchwil yr Aelodau yn cynnal adolygiad cymheiriaid i sicrhau ansawdd sy'n cynnwys asesiad o'i ymdriniaeth â g wahaniaethu a chyfle cyfartal.

### **5.2. Nodau ac Amcanion ar gyfer 2004-05**

5.2.1 Y pwyllgorau i gynnal adolygiadau polisi gyda phwyslais ar gydraddoldeb yn ystod 2004-2005. Caiff adroddiadau eu cyhoeddi ar adolygiadau a gynhaliwyd ar Brif Ffrydio Cydraddoldeb, Tai i Bobl Hŷn, Darpariaeth Anghenion Addysgol Arbennig, Anweithgarwch Economaidd a Chyfraniad y Celfyddydau a Chwaraeon i'r gwaith o Adfywio Cymunedau. Bydd adolygiadau eraill o Bobl Ifanc Anabl ac effaith Camddefnyddio Cyffuriau a Sylweddau yn parhau. Yn unol ag un o argymhellion yr adroddiad ar Brif Ffrydio Cydraddoldeb, bydd y Pwyllgorau Pwnc yn cyflwyno copïau o'u Blaenraglenni Gwaith i'r Pwyllgor Cyfle Cyfartal.

5.2.2 Bydd MRCS yn cydweithio â'r gwasanaethau Corfforaethol i drefnu hyfforddiant cydraddoldeb i Aelodau'r Pwyllgorau. Bydd ymwybyddiaeth o faterion cydraddoldeb yn elfen o bob cwrs cynefino ar gyfer staff newydd MRCS.

5.2.3 Caiff cydraddoldeb ei gynnwys fel eitem reolaidd ar yr agenda ar gyfer cyfarfodydd Panel y Cadeiryddion

5.2.4 Caiff Ystyriaethau cydraddoldeb eu cynnwys mewn rhestr wirio ddiwygiedig ar gyfer lleoliadau addas i gynnal cyfarfodydd allanol a gaiff eu trefnu gan y Gwasanaeth Seneddol.

## **6. Mentrau adnoddau dynol yn Swyddfa'r Llywydd**

### **6.1 Gwaith a wnaed a'r hyn a gyflawnwyd yn ystod 2003-04**

6.1.1 Gweithiodd y Cangen Adnoddau Dynol mewn partneriaeth ag Is-adran Adnoddau Dynol (Pobl) Llywodraeth Cynulliad Cymru i ddatblygu a gweithredu polisi recriwtio sy'n sicrhau ein bod yn recriwtio a chadw gweithlu medrus sy'n adlewyrchu'r gymdeithas yr ydym yn ei gwasanaethu. Mae'r polisi'n hybu cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy greu gwell cydbwysedd rhwng staff newydd sy'n 'camu mewn' a staff presennol sy'n 'camu 'mlaen'.

6.1.2 Mae holiaduron yn ymwneud â chyfle cyfartal yn dal i gael eu hanfon gyda phe cynnau cais er mwy medru cofnodi ystadegau ethnigrydd ac anabledd a'u monitro i sicrhau effeithiolrwydd y broses recriwtio.

6.1.3 O dan y cynllun tic dwbl, bydd ymgeiswyr anabl sy'n bodloni'r gofynion sylfaenol yn symud i gam nesaf y broses asesu.

6.1.4 Ar ôl gwerthuso prosiect y Fargen Newydd i Bobl Anabl a gynhaliwyd yn ystod 2002/03 i annog ymgeiswyr anabl i ymuno â'r Cynulliad, y casgliad oedd bod y cynllun wedi bod yn llwyddiant.

6.1.5 Mae'r pedwar cynorthwy-ydd gweinyddol a gafodd gytundebau tymor penodol gyda Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad, wedi cael swyddi parhaol yn y GSC a'r Cynulliad ehangach. Cafodd Paul Furnish, un o'r unigolion hyn, sy'n gweithio yn y Gwasanaeth Addysg a Gwybodaeth i'r Cyhoedd Ddyfarniad y Fargen Newydd ar gyfer Caerdydd ac Ardal y Cymoedd am ei waith.

6.1.6 Mae'r pum gweithiwr cartref sy'n gweithio i'r Gwasanaeth Cyfieithu a Chofnod y Trafodion, a gafodd eu recriwtio fel rhan o Gynllun Peilot yn ystod 2002/03, yn awr wedi cael swyddi parhaol ar ôl cwblhau eu cyfnod prawf. Cafodd un cyfieithydd ei hadleoli i swyddfa Caerfyrddin.

6.1.7 Cynlluniwyd modiwl U-Access yn system TG y Cangen Adnoddau Dynol i gasglu data am ethnigrydd, rhyw, anabledd ac oed staff GSC ac i wella gwybodaeth rheoli.

6.1.8 Bu'r Uwch Dîm Rheoli yn ystyried y posibilrwydd o gyflwyno Cynllun Gweithredu Cadarnhaol i gynyddu nifer y Bobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig sy'n rhan o'r gweithlu. Penderfynwyd y byddai cynllun allgymorth gwahanol yn ffordd fwy addas o gyflawni'r nod hwn.

## **6.2 Nodau ac Amcanion ar gyfer 2004-05**

6.2.1 Archwilio effeithiolrwydd y polisi recriwtio newydd i sicrhau ei fod yn rhoi mwy o gyfleoedd i bawb gan gymryd camau ychwanegol yn ôl a galw.

6.2.2 Ehangu cyfleoedd i weithio oriau hyblyg yn GSC. Mae'r Gwasanaeth Cyfieithu a Chofnod y Trafodion wedi hysbysebu swyddi i unigolion weithio fin nos ac mae'n bosibl y caiff y trefniant hwn ei ehangu i ganiatáu i ragor o staff weithio gartref.

6.2.3 Hybu'r defnydd o U-Access i sicrhau bod modd casglu ystadegau am y gweithlu a'u defnyddio i archwilio effeithiolrwydd Polisiâu Adnoddau Dynol, megis recriwtio mewnol ac allanol, rheoli perfformiad a hyfforddiant

6.2.4 Cynnig hyfforddiant a chyfleoedd datblygu i unigolion sy'n gyfrifol am hybu cydraddoldeb ac amrywiaeth yn GSC, i sicrhau bod y sgiliau ganddynt i fwrw ymlaen â'r rhaglen cydraddoldeb.

6.2.5 Fel rhan o'r rhaglen gynefino ddiwygiedig, sicrhau bod staff newydd i gyd yn cael hyfforddiant cydraddoldeb ac amrywiaeth i'w galluogi i hybu cydraddoldeb ym mhob agwedd ar eu gwaith.

6.2.6 Cyflwyno cynigion ar gyfer cynllun allgymorth GSC i gynyddu nifer y Bobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig sy'n rhan o'r gweithlu.

**ATODIAD C: ADRODDIAD AR WAITH LLYWODRAETH CYNULLIAD  
CYMRU I HYBU CYDRADDOLDEB 2003 - 2004**

---

**Rhagair gan y Trefnydd, Jane Hutt AC a'r Ysgrifennydd Parhaol, Syr Jon Shortridge KCB**

Mae'r Adroddiad hwn yn amlinellu'r gwaith a wnaethpwyd er mwyn hybu cyfle cyfartal yn Llywodraeth y Cynulliad rhwng Ebrill 2003 a Mawrth 2004. Bydd Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad yn cyflwyno adroddiad ar wahân ar y gwaith o hybu cyfle cyfartal yn y Cynulliad.

Mae gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ddyletswydd statudol i sicrhau bod cyfle cyfartal yn rhan annatod o'i waith ac mae Llywodraeth y Cynulliad wedi ymrwmo i hybu cyfle cyfartal ym mhob agwedd ar fywyd yng Nghymru.

Mae pwerau pellgyrhaeddol Llywodraeth y Cynulliad yn ymwneud ag agweddau amrywiol ar fywyd cyhoeddus yng Nghymru ac mae ei bolisïau, o ganlyniad, yn cael effaith sylweddol ar fywydau Pobl Cymru o ddydd i ddydd. Yn yr adroddiad hwn ceir manylion am y camau a gymerwyd er mwyn hybu cyfle cyfartal mewn meysydd polisi amrywiol.

Yn ogystal â gwaith ym maes datblygu a gweithredu polisïau, rydym wedi ymdrechu'n galed i hybu cyfle cyfartal yn y ffordd yr ydym yn gweithredu, ac yn cyflogi ac yn datblygu staff. Mae mwy a mwy o sylw wedi bod yn cael ei roi i ystyriaethau cyfle cyfartal wrth i ni gyhoeddi dogfennau, darparu mynediad at wasanaethau, hyfforddi'n staff, sicrhau nwyddau a gwasanaethau a gwneud penodiadau cyhoeddus.

Gobeithiwn barhau i adeiladu ar y cynnydd hwn drwy ddatblygu a gweithredu'r Strategaeth Prif Ffrydio Cydraddoldeb a'n Cynllun Cydraddoldeb Hiliol.

**JANE HUTT AC  
Y TREFNYDD**

**JON SHORTRIDGE, KCB  
YR YSGRIFENNYDD PARHAOL**

CYFIAWNDER CYMDEITHASOL AC ADFYWIO .....	23
<u>LLYWODRAETH LEOL, GWASANAETHAU CYHOEDDUS A DIWYLLIANT</u>	
.....	32
<u>YR AMGYLCHEDD, CYNLLUNIO A CHEFN GWLAD .....</u>	41
<u>RHEOLI GWYBODAETH FUSNES .....</u>	44
<u>YR ADRAN IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL .....</u>	47
<u>SWYDDFA'R CWNSLER CYFFREDINOL.....</u>	49
<u>AROLYGIAETH GWASANAETHAU CYMDEITHASOL CYMRU .....</u>	50
<u>SWYDDFA'R PRIF SWYDDOG MEDDYGOL .....</u>	52
<u>HYFFORDDIANT AC ADDYSG.....</u>	62
<u>DATBLYGU ECONOMAIDD A THRAFNIDIAETH .....</u>	69
<u>ADNODDAU'R GWEITHLU .....</u>	71

## **Cyflwyniad i Waith Llywodraeth Cynulliad Cymru i Hybu Cydraddoldeb 2003-2004**

Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi ymrwmo i hybu cyfle cyfartal ym mhob agwedd ar fywyd yng Nghymru, gan gynnwys hil, iaith, crefydd, anabledd, oed, rhyw a thueddiad rhywiol.

Mae'r Adroddiad hwn yn egluro trefniadau Llywodraeth y Cynulliad, a'u heffeithiolrwydd, o ran bodloni ei dyletswyddau dan Adrannau 48 a 120 Deddf Llywodraeth Cymru 1998 sef:

- cynnal ei busnes gan roi sylw priodol i'r egwyddor y dylai pawb gael cyfle cyfartal (adran 48); a
- ymarfer ei swyddogaethau gan roi sylw priodol i'r egwyddor y dylai pawb gael cyfle cyfartal (adran 120).

Mae tablau'r adroddiad hwn yn dangos sut mae Llywodraeth y Cynulliad wedi mabwysiadu dull gweithredu trawsbynciol er mwyn hybu cydraddoldeb, gan gymryd camau ar draws ei hystod eang o feysydd polisi a gweithredu. Er bod hyn yn cynrychioli cam sylweddol ymlaen a chorff mawr o waith, mae Llywodraeth y Cynulliad yn cydnabod y gellir gwneud mwy i wella effeithiolrwydd ei waith ar gyfle cyfartal ac mae wedi ymrwmo i wneud hynny.

Mae trefniadau wedi cael eu rhoi mewn lle, ac arferion gwaith wedi cael eu mabwysiadu, i sicrhau bod Adrannau Llywodraeth y Cynulliad wedi'u harfogi i hybu cyfle cyfartal yn eu gwaith. Sef:

- ymgynghori â chyrrff cydraddoldeb i sicrhau bod ein polisiau'n ystyried yr effaith bosibl ar grwpiau gwahanol;
- casglu / dadansoddi ymchwil ac ystadegau ynghylch cydraddoldeb er mwyn darparu tystiolaeth i gefnogi camau i hybu cyfle cyfartal;
- darparu gwybodaeth a gwasanaethau mewn ffordd sy'n ceisio rhoi mynediad i'r Cynulliad i bob grŵp;
- darparu hyfforddiant er mwyn arfogi'r staff â'r sgiliau a'r wybodaeth i hybu cydraddoldeb a mynd i'r afael â chamwahaniaethu anghyfreithlon;
- gweithredu systemau recriwtio a dethol heb gamwahaniaethu;
- cynllunio systemau caffael i hybu cyfle cyfartal; ac
- mae trefniadau penodiadau cyhoeddus yn ceisio ymwneud â phobl o amrywiaeth eang o gefndiroedd.

Datblygwyd y trefniadau hyn fwyaf diweddar ym maes hil lle mae gan y Cynulliad Gynllun Cydraddoldeb Hiliol (er mwyn bodloni ei ddyletswyddau cyfreithiol dan y Ddeddf Cysylltiadau Hiliol). Bydd Llywodraeth y Cynulliad yn defnyddio'r Cynllun hwn fel sylfaen ar gyfer datblygu dull gweithredu "prif ffrydio" a fydd yn berthnasol i'w gwaith ar gydraddoldeb yn fwy cyffredinol.

## CYFIAWNDER CYMDEITHASOL AC ADFYWIO

### Y Gyfarwyddiaeth Gymunedau

Agwedd ar Gydraddoldeb	
<b>Cydraddoldeb Cyffredinol/Trosfwaol</b>	<b>Rhaglen Cyfleusterau a Gweithgareddau Cymunedol</b> <ul style="list-style-type: none"><li>• Un o'r blaenoriaethau ar gyfer y rhaglen hon oedd cynnwys pobl o bob oedran a gallu yn y gymuned a rhoi sylw i anghenion grwpiau sydd wedi cael eu cau allan o'r gymdeithas</li><li>• Roedd blaenoriaethau'r rhaglen yn cynnwys darparu cyfleusterau neu weithgareddau sy'n lleihau tloedi, anghydraddoldeb, camwahaniaethu ac anfantais gymdeithasol, a chryfhau hunaniaeth ddiwylliannol ac ieithyddol y gymuned</li></ul>
<b>Oedran</b>	<b>Arian i The Prince's Trust - Cymru</b> <ul style="list-style-type: none"><li>• Dyfarnwyd grant o bron i £1m ar gyfer y cyfnod 2002-06 i fenter U-FIRST The Prince's Trust - Cymru dan y rhaglen Cymunedau yn Gyntaf. Drwy'r fenter hon penodwyd person ifanc ar gyfer pob un o'r deg cymuned sy'n rhan ohoni, a chafodd y bobl ifanc hyn eu recriwtio'n uniongyrchol o'r gymuned yr oedd ganddynt brofiad ohoni ac y bwriadent ei gwasanaethu. Cafodd pob un ei ryddhau i ddilyn cwrs i'w helpu gyda'i ddatblygiad personol ac academaidd tra'n cael ei gefnogi gan The Prince's Trust - Cymru i wella bywydau pobl ifanc yn yr ardal.</li></ul> <b>Cymuned o Ddiddordeb</b> <ul style="list-style-type: none"><li>• Parhaodd y gwaith yn 2003/04 ar Gymuned o Ddiddordeb Plant a Phobl Ifanc yn Sir Benfro.</li></ul> <b>Nodyn Cyfarwyddyd Rhwydwaith Cefnogi Cymunedau yn Gyntaf</b> <ul style="list-style-type: none"><li>• Cynhyrchodd Rhwydwaith Cefnogi Cymunedau yn Gyntaf nodyn cyfarwyddyd yn ymwneud ag ennyn diddordeb Plant a Phobl Ifanc yn y rhaglen Cymunedau yn Gyntaf.</li></ul>

<p><b>Anabledd</b></p>	<p><b>Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol Pobl Fyddar / Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol y Deillion</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Dan y Rhaglen Cymunedau yn Gyntaf, rhoddwyd arian i Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol Pobl Fyddar (RNID) a Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol y Deillion (RNIB) er mwyn cael pobl sy'n fyddar neu'n drwm eu clyw a phobl sy'n ddall neu sy'n gweld yn rhannol i ymwneud â'r rhaglen Cymunedau yn Gyntaf. Adolygwyd gwaith y sefydliadau yn Rhagfyr 2003 ac argymhellwyd parhau â'r nawdd ariannol i'r RNID, am flwyddyn i ddechrau, a pharhau â'r nawdd ariannol i'r RNIB am dair blynedd arall.</li> </ul> <p><b>Cronfa Datblygu Swyddfeydd Post</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Yn 2003/04, darparwyd arian dan y Gronfa Datblygu Swyddfeydd Post er mwyn sicrhau mynediad i bobl anabl mewn nifer o Swyddfeydd Post.</li> </ul>
<p><b>Rhyw</b></p>	<p><b>Prosiect Gweithio Gartref</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Darparu arian i'r Grwp Cenedlaethol Gweithio Gartref er mwyn canfod faint o bobl sy'n gweithio gartref yng Nghymru, beth maent yn ei wneud a pha fath o gefnogaeth sydd ar gael iddynt.</li> </ul>

<p><b>Hil</b></p>	<p><b>Tîm Cymorth Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig (BEST)</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Darparwyd arian dan Gronfa Gymorth “Cymunedau yn Gyntaf” i'r Tîm Cymorth Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig (BEST). Roedd BEST yn dod â Chymdeithas Lleiafrifoedd Ethnig Cymru Gyfan, Rhwydwaith Sector Gwirfoddol Du Cymru, MEWN Cymru ac Ymddiriedolaeth Scarman at ei gilydd. Dyfarnwyd yr arian er mwyn helpu i benodi Cydlynnydd BEST, tri Gweithiwr Datblygu a Gweithiwr Datblygu ar gyfer Gogledd Cymru.</li> <li>• Cyflwynodd a darparodd BEST wasanaethau cefnogi priodol ar gyfer gwahanol ddiwylliannau (gan ganolbwyntio ar gynlluniau busnes a chynlluniau ariannol; strategaeth gyfundrefnol; rheoli prosiectau; codi arian; gwerthuso ac archwilio; materion cyfreithiol a strwythurol; TGCh; hyfforddiant; a systemau rhwydweithio a chefnogi) i sefydliadau a chymunedau lleiafrifoedd ethnig mewn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf ledled Cymru. Yn ogystal ag annog ffurfio grwpiau cymunedol a rhwydweithiau lleol newydd, byddai'r sefydliad yn sefydlu partneriaethau mewn ardaloedd trefol allweddol ac yn trosglwyddo sgiliau a gwybodaeth i sefydliadau cymunedol lleol.</li> </ul> <p><b>Rhwydwaith Sector Gwirfoddol Du (Cymru)</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Darparwyd arian i Rhwydwaith Sector Gwirfoddol Du Cymru (BVSNW) yn ei rôl fel rhan o'r Rhwydwaith Cefnogi Cymunedau yn Gyntaf. Prif rôl y Rhwydwaith oedd helpu i ennyn diddordeb grwpiau o leiafrifoedd ethnig yn y Rhaglen Cymunedau yn Gyntaf.</li> </ul> <p><b>Prosiect AWEMA</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Darparwyd arian ar gyfer Swyddog Datblygu Economaidd er mwyn: <ul style="list-style-type: none"> <li>• datblygu gallu'r staff a'r aelodau i gyflawni nodau ac amcanion cytunedig Pwyllgor Datblygu Economaidd AWEMA;</li> <li>• dechrau'r broses o sicrhau arian cyfatebol ar gyfer cyllid EQUAL a Chymorth Technegol Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop.</li> </ul> </li> </ul>
-------------------	--

## Uned Diogelwch Cymunedol

Agwedd ar Gydraddoldeb	
<b>Hil</b>	<p><b>Monitro Cydlyniant Cymunedol</b></p> <ul style="list-style-type: none"><li>Parhaodd yr Uned Diogelwch Cymunedol i fonitro materion cydlyniant cymunedol yng Nghymru yn fisol, gan adrodd yn uniongyrchol i'r Swyddfa Gartref. Er enghraifft, cafodd ardal Parc Caia yn Wrecsam ei monitro'n ofalus yn dilyn terfysg yno.</li></ul> <p><b>Fforwm Genedlaethol Cydlyniant Cymunedol</b></p> <ul style="list-style-type: none"><li>Parhaodd yr Uned Diogelwch Cymunedol i anfon cynrychiolwyr i'r Fforwm Genedlaethol Cydlyniant Cymunedol.</li></ul> <p><b>Arian i Ganolfan Les Foslemaidd</b></p> <ul style="list-style-type: none"><li>Darparodd yr Uned Diogelwch Cymunedol £5,000 i Ganolfan Les Foslemaidd yn y Bari er mwyn darparu lle parcio diogel i'w defnyddwyr.</li></ul>

## Uned Polisi Cydraddoldeb

Agwedd ar Gydraddoldeb	
<b>Anabledd</b>	<p><b>Blwyddyn Ewropeaidd Pobl Anabl 2003</b></p> <ul style="list-style-type: none"><li>Parhaodd yr Uned Polisi Cydraddoldeb i ddarparu cefnogaeth i grwp hwyluso Blwyddyn Ewropeaidd Pobl Anabl Cymru Gyfan. Yn Ionawr 2004, ymwahanodd y grwp ar ôl cytuno i gynhyrchu dogfen yn crynhoi'r prif bethau a gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn yng Nghymru, y gobeithir ei chyhoeddi yn Rhagfyr 2004.</li></ul> <p><b>Anabledd Cymru</b></p> <ul style="list-style-type: none"><li>Fel corff ymbarél, darparodd yr Uned Polisi Cydraddoldeb grantiau chwarterol i Anabledd Cymru er mwyn galluogi Swyddog Ymgynghorol Anabledd i wneud nifer o ymgynghoriadau, gan gynnwys ymgynghoriadau ynghylch Ymgynghori â Chynghorau Ysgolion a'r Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd.</li></ul>
<b>Rhyw</b>	<p><b>Glymblaid Genedlaethol Menywod Cymru</b></p> <ul style="list-style-type: none"><li>Darparodd yr Uned Polisi Cydraddoldeb arian i Glymblaid Genedlaethol Menywod Cymru, rhwydwaith ymgynghorol a sefydlwyd er mwyn hybu cydraddoldeb rhwng dynion a merched yng Nghymru. Yn ystod y cyfnod a adolygwyd, llwyddodd y Glymblaid i sefydlu a chymryd rhan mewn nifer o weithgareddau. Roedd y rhain yn cynnwys ymateb i ymgynghoriad "Diogelwch a Chyfiawnder" y Swyddfa Gartref a threfnu nifer o weithdai gyda'r bwriad o roi hwb i hyder menywod a'u hannog i gymryd rhan mewn amrediad eang o sefydliadau yng Nghymru.</li></ul> <p><b>Diwrnod Rhyngwladol Menywod</b></p> <ul style="list-style-type: none"><li>Trefnodd y Cynulliad weithgareddau ar gyfer merched ethnig i ddathlu Diwrnod Rhyngwladol Menywod ym Mawrth 2004. Trefnwyd y diwrnod gan y Cynulliad ar y cyd â nifer o fudiadau sy'n ymwneud â merched o leiafrifoedd ethnig gan gynnwys: MEWN Cymru, BAWSO, Saheli, Grwp Cefnogi Lleiafrifoedd Ethnig Merched y Cymoedd, Merched a Phobl Ifanc Somali Caerdydd, Women Connect First a Women in Action.</li><li>Gwahoddodd y mudiadau hyn ddetholiad o ferched o leiafrifoedd ethnig o'r cymunedau mwyaf ymylol a difreintiedig yng Nghymru. Amcan cyffredinol y diwrnod oedd:<ul style="list-style-type: none"><li>Datblygu mwy o ymwybyddiaeth, dealltwriaeth a chydweithio rhwng gwahanol grwpiau o ferched o</li></ul></li></ul>

	<p>leiafrifoedd ethnig;</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Dathlu Diwrnod Rhyngwladol Menywod;</li> <li>• Rhoi cyfle i ferched o leiafrifoedd ethnig drafod materion allweddol yn ymwneud â chydaddoldeb rhywiol a hiliol gyda swyddogion y Cynulliad a'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio.</li> </ul> <p><b>Ymgyrch Cyflog Cyfartal</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Yn Nhachwedd 2003 cymeradwyodd Edwina Hart AC, y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio nawdd ariannol ar gyfer ail ran yr Ymgyrch Cyflog Cyfartal. Roedd y cyfanswm yn £60,253 ac fe'i rhannwyd fel a ganlyn: <ul style="list-style-type: none"> <li>• Roedd £45,253 o'r arian i fynd i TUC Cymru er mwyn cyflogi dau swyddog ar secondiad i gynorthwyo swyddogion Undeb a chyflogwyr i ddechrau adolygiadau cyflog; ac</li> <li>• Roedd £10,000 o'r arian i fynd i'r Comisiwn Cyfle Cyfartal er mwyn: <ul style="list-style-type: none"> <li>• comisiynu ymchwil i gyflog cyfartal mewn perthynas â dynion a menywod o leiafrifoedd ethnig; a</li> <li>• chynyddu ymwybyddiaeth o'r Pecyn Adolygu Cyflog Cyfartal ymhlith Mentrau Bach a Chanolig eu Maint.</li> </ul> </li> <li>• Clustnodwyd £5,000 o'r arian ar gyfer gwerthuso ail ran yr Ymgyrch Cyflog Cyfartal.</li> </ul> </li> </ul>
<b>Hil</b>	<p><b>Seminar Sipsiwn a Chrwydriaid</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Ar 17<sup>eg</sup> Tachwedd 2003 trefnodd yr Uned Polisi Cydraddoldeb, ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru, a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru seminar ar y cyd ar gyfer Awdurdodau Lleol a Byrddau Iechyd Lleol o bob cwr o Gymru er mwyn trafod adolygiad y Comisiwn Cyfle Cyfartal o'r Gwasanaethau a Ddarperir i Sipsiwn a Chrwydriaid.</li> <li>• Cafwyd cyfres o siaradwyr gwadd yn y Seminar o Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru fel y Bartneriaeth Cyfraith Gymunedol;</li> <li>• Nod y Seminar oedd: <ul style="list-style-type: none"> <li>• Edrych ar argymhellion yr adolygiad;</li> <li>• Canfod beth sydd wedi ei gyflawni hyd yn hyn;</li> <li>• Rhannu'r arferion gorau; ac</li> <li>• Egluro beth yw'r elfennau sy'n rhwystro argymhellion yr adolygiad rhag cael eu gweithredu'n effeithiol.</li> </ul> </li> </ul>

### **Adolygiad o'r Gwasanaethau a Ddarperir i Sipsiwn a Chrwydriaid**

- Gweithredodd yr Uned Polisi Cydraddoldeb fel cydlynnydd ar gyfer adrannau'r Cynulliad mewn perthynas ag ymateb Llywodraeth y Cynulliad Cenedlaethol i Adolygiad y Comisiwn Cyfle Cyfartal o'r Gwasanaethau a Ddarperir i Sipsiwn a Chrwydriaid. Cyflwynwyd ymateb ffurfiol i'r adroddiad i'r Pwyllgor ym Mawrth 2004.

### **Diwrnodau Ymgynghori'r Cynllun Cydraddoldeb Hiliol**

- Bu staff yr Uned Polisi Cydraddoldeb yn gweithio gyda chwmni o ymgynghorwyr allanol er mwyn llunio Cynllun Cydraddoldeb Hiliol. Adolygwyd y cynllun drafft a chyflwynwyd adborth arno gan gynrychiolwyr o'r gymuned lleiafrifoedd ethnig a staff y Cynulliad, ac mewn nifer o ddiwrnodau ymgynghori a gynhaliwyd yn Neuadd y Ddinas yng Nghaerdydd, Neuadd y Ddinas yn Abertawe a'r Deml Heddwch yng Nghaerdydd. Yn ogystal â hyn, defnyddiodd yr Uned hefyd rwydwaith sefydledig drwy'r Cyngor Cydraddoldeb Hiliol i drefnu diwrnodau ymgynghori/gweithdai bychain, cyn y diwrnodau ymgynghori mawr.

### **Fforwm Polisi Cymru Gyfan ar Ffoaduriaid**

- Cyhoeddodd y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio y byddai Fforwm Polisi Cymru Gyfan ar Ffoaduriaid yn cael ei sefydlu yn Nhachwedd 2003. Sefydlwyd y Fforwm hon o ganlyniad i'r angen i ddatblygu strategaeth yng Nghymru er mwyn cefnogi ffoaduriaid a'u helpu i fod yn rhan o'r gymuned ehangach. Bu'n ceisio sicrhau dull gweithredu mwy strategol, cydlynol ac effeithiol o gefnogi'r gwaith o integreiddio ffoaduriaid a cheiswyr lloches ar lefel genedlaethol trwy Gymru gyfan. Yn ystod cyfnod yr adolygiad, lluniodd y fforwm adolygiad cynhwysfawr o sefyllfa ffoaduriaid a cheiswyr lloches yng Nghymru.

### **Cymdeithas Lleiafrifoedd Ethnig Cymru Gyfan (AWEMA)**

- Fel un o'r cyrff ymbarél sy'n cael ei ariannu gan yr Uned Polisi Cydraddoldeb, yr oedd AWEMA wedi sefydlu rhwydweithiau cymunedol a ddefnyddiwyd gan yr Uned ar gyfer gwaith ymgynghorol. Defnyddiwyd yr arian a roddwyd i AWEMA er mwyn galluogi Swyddog Datblygu Strategaeth / Datblygu Potensial i ddarparu cymorth strategol i'r sefydliad a datblygu potensial staff AWEMA. Er mwyn sicrhau bod y grant yn cael ei wario'n effeithiol, cyflogodd yr Uned ymgynghorydd annibynnol i adolygu perfformiad AWEMA. Cyhoeddir adroddiad yr adolygiad yn Ionawr 2005.

### **AWEMA (Hawl i Bleidleisio)**

- Cafodd y prosiect, a sefydlwyd yn wreiddiol yn 1999, ei ddefnyddio gan AWEMA er mwyn cynyddu ymwybyddiaeth pleidleiswyr a chael mwy o bobl o leiafrifoedd ethnig yng Nghymru i gofrestru, â chymorth ariannol gan y Cynulliad. Erbyn Mawrth 2004, roedd AWEMA wedi cwblhau ymchwil atodol er mwyn canfod beth yw agwedd cymunedau lleiafrifoedd ethnig tuag at wleidyddiaeth yng Nghymru. Mae adroddiad yr adolygiad y cyfeirir ato uchod hefyd yn ymwneud â'r prosiect hwn.

### **Prosiect Gofalwyr Duon a Lleiafrifoedd Ethnig AWEMA**

- Gwaith yw hwn yr ymgwymerwyd ag ef gan AWEMA gyda chymorth ariannol gan y Cynulliad er mwyn archwilio'r gwasanaethau a'r gweithgareddau a ddarperir ar gyfer gofalwyr o leiafrifoedd ethnig yng Nghymru, nodi meysydd allweddol ar gyfer datblygu gwasanaethau a llunio canllawiau/arferion da ar gyfer darparu gwasanaeth a sicrhau ei fod yn rhwydd i'w ddefnyddio.

### **Swydd Prif Weithredwr Cyngor Ffoaduriaid Cymru**

- Mae'r Uned Polisi Cydraddoldeb wedi darparu cymorth ariannol tuag at swydd y Prif Weithredwr a fydd yn arwain ac yn goruchwyllo'r gwaith o redeg Cyngor Ffoaduriaid Cymru.

### **Swyddogion Cydraddoldeb Hiliol y Cyngor Cydraddoldeb Hiliol**

- Dyfarnwyd grantiau er mwyn galluogi rhai Cyngorau Cydraddoldeb Hiliol yng Nghymru i benodi Swyddogion Cydraddoldeb Hiliol lle'r oedd ymdrechion blaenorol i ddod o hyd i secondiadau addas wedi methu.

### **Cymdeithas Affrica Ganol**

- Dyfarnodd yr Uned Polisi Cydraddoldeb grant i Gymdeithas Affrica Ganol er mwyn ei galluogi i weithio gyda grwpiau ffoaduriaid ymylol neu ddifreintiedig iawn. Caniataodd y grant hwn i'r gymdeithas weithio ar faterion yn ymwneud â setlo ac integreiddio grwpiau ffoaduriaid yng Nghymru drwy ddarparu canllawiau, cyngor ac addysg, yn enwedig ym maes iaith.

	<p><b>Gwobrau Amrywiaeth Cymru</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Noddodd yr Uned Polisi Cydraddoldeb Wobrau Amrywiaeth Cymru, a drefnwyd gan Rwydwaith Sector Gwirfoddol Du Cymru.</li> </ul>
<p><b>Tueddfryd Rhywiol</b></p>	<p><b>Stonewall Cymru</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Darparodd yr Uned Polisi Cydraddoldeb nawdd ariannol i Stonewall Cymru, sef y corff ymbarél sy'n cynrychioli lesbiaid, hoywon a phobl ddeurywiol yng Nghymru. Bu'r gymdeithas yn ymdrechu i sicrhau cydraddoldeb cyfreithiol a chyfiawnder cymdeithasol i lesbiaid, hoywon a phobl ddeurywiol, drwy rwydweithiau partneriaid gweithredol yng Nghymru, yn ogystal â darparu gwasanaethau i fudiadau eraill. Er enghraifft, yn 2003-04, bu Stonewall Cymru yn helpu Heddlu Dyfed-Powys i sefydlu grŵp cyswllt rhwng yr heddlu a lesbiaid, hoywon a phobl ddeurywiol ac yn gwneud yr arolwg cyntaf erioed o lesbiaid, hoywon a phobl ddeurywiol yng Nghymru.</li> </ul> <p><b>Mardi Gras Cymru 2003</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Noddodd yr Uned Polisi Cydraddoldeb y Mardi Gras yng Nghaerdydd 2003 yn yr ymdrech i fynd i'r afael â throseddau casineb homoffobig a dathlu amrywiaeth yng nghymunedau Caerdydd.</li> </ul> <p><b>Mesur Partneriaethau Sifil</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Bu'r Uned Polisi Cydraddoldeb yn derbyn ac yn cydosod adborth gan aelodau o'r cyhoedd a sefydliadau mewn ymateb i ymgynghoriad y Swyddfa Gartref ar y Mesur Partneriaethau Sifil arfaethedig. Trosglwyddwyd yr ymatebion hyn i gael eu hystyried gan y Swyddfa Gartref.</li> </ul>

## LLYWODRAETH LEOL, GWASANAETHAU CYHOEDDUS A CHEFN GWLAD

### Yr Is-adran Gweinyddiaeth Gyhoeddus

<b>Agwedd ar Gydraddoldeb</b>	
<b>Cydraddoldeb Cyffredinol/Trosfwaol</b>	<p><b>Ymchwil i Gymhelliant</b></p> <ul style="list-style-type: none"><li>• Yn Ebrill 2003 comisiynodd yr Uned Penodiadau Cyhoeddus ymchwil gan Brifysgol Bangor i'r hyn sy'n cymell pobl i dderbyn penodiad cyhoeddus a'r gwahaniaethau rhwng gwahanol grwpiau (rhyw, lleiafrifoedd ethnig a phobl anabl, ac ati). Defnyddir y gwaith ymchwil er mwyn helpu i wella'r ffordd y mae'r Cynulliad yn cyfathrebu gyda grwpiau sy'n cael eu tangynrychioli.</li></ul> <p><b>Cynllun Datblygu Aelodau Byrddau</b></p> <ul style="list-style-type: none"><li>• Ym Medi 2003 rhoddwyd cymeradwyaeth mewn egwyddor gan y Gweinidogion i gynllun i roi cyfle i bobl o grwpiau sy'n cael eu tangynrychioli (merched, lleiafrifoedd ethnig a phobl anabl) eistedd ar fwrdd corff cyhoeddus am gyfnod byr. Byddai hyn yn rhoi iddynt y sgiliau a'r profiad perthnasol i dderbyn penodiad cyhoeddus. Bwriedir treialu'r cynllun yn 2004-05 gyda Bwrdd Cynghorol Datblygu Diwydiannol Cymru.</li></ul> <p><b>Cynyddu ymwybyddiaeth</b></p> <ul style="list-style-type: none"><li>• Er mwyn cynyddu ymwybyddiaeth o gyfleoedd ar gyfer penodiadau cyhoeddus ymhlith grwpiau sy'n cael eu tangynrychioli, er Chwefror 2004 mae manylion am swyddi gweigion y disgwylir y byddant ar gael yn ystod y tri i chwe mis sy'n dilyn wedi bod yn cael eu dosbarthu'n fisol i gyrff cydraddoldeb. Mae'r sefydliadau hyn yn cynnwys y Comisiwn Cyfle Cyfartal, y Comisiwn Hawliau Anabledd, y Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol, Cynghorau Cydraddoldeb Hiliol Lleol, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, Anabledd Cymru a Chlymblaid Genedlaethol Menywod Cymru. Cyhoeddwyd manylion hefyd ar wefan y Cynulliad.</li></ul>

<b>Anabledd</b>	<p><b>Cynhadledd Anabledd Cymru</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Yng nghynhadledd Anabledd Cymru, a gynhaliwyd yn Nhachwedd 2003, siaradodd aelod o dîm yr Uned Penodiadau Cyhoeddus mewn gweithdy am gymryd rhan mewn bywyd cyhoeddus er mwyn cynyddu ymwybyddiaeth o benodiadau cyhoeddus. Yn ei haraith gyweirnod cyfeiriodd Sue Essex AC, Y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus hefyd at bwysigrwydd cymryd rhan mewn bywyd cyhoeddus a nod y Cynulliad o gael cyrff cyhoeddus i adlewyrchu'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu yn well.</li> </ul>
<b>Rhyw</b>	<p><b>Clymblaid Genedlaethol Menywod Cymru</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Yn Nhachwedd 2003 mynychodd yr Uned Penodiadau Cyhoeddus weithgaredd a drefnwyd gan y Glymblaid er mwyn cynyddu ymwybyddiaeth o benodiadau cyhoeddus.</li> </ul>
<b>Hil</b>	<p><b>Cynhadledd y Ganolfan Marchnadoedd Cymdeithasol</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Yng Ngorffennaf 2003 traddododd Prif Weinidog Cymru yr araith gyweirnod yn y gynhadledd hon gan annog pobl o gymunedau lleiafrifoedd ethnig i gyfrannu tuag at fywyd yng Nghymru drwy dderbyn penodiadau cyhoeddus.</li> </ul>

## Cyllid Llywodraeth Leol

<b>Agwedd ar Gydraddoldeb</b>	
<b>Hil</b>	<p><b>Cyllid Llywodraeth Leol</b></p> <ul style="list-style-type: none"><li>• Ceisiodd yr Is-adran Cyllid Llywodraeth Leol sicrhau bod ystyriaeth briodol yn cael ei rhoi i ethnigrwydd mewn unrhyw adolygiad o'r fformiwlâu a ddefnyddir er mwyn pennu cyllid llywodraeth leol.</li></ul> <p><b>Arian ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol Plant</b></p> <ul style="list-style-type: none"><li>• Bu'r Is-adran yn ystyried cydnabod ethnigrwydd fel elfen sy'n arwain at gostau yn achos gwasanaethau cymdeithasol plant. Fel rhan o waith a wnaethpwyd er mwyn datblygu fformiwla dyrannu adnoddau ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol plant, roedd ymgynghorwyr o Brifysgol Efrog wedi argymhell y dylai'r Cynulliad edrych ar ethnigrwydd fel elfen bosibl sy'n codi costau.</li><li>• Codwyd set ddata yn ymwneud â phlant o grwpiau ethnig heb fod yn wyn ar lefel rhanbarthau etholiadol o gyfrifiad 2001 yn barod ar gyfer rhagor o waith a fydd yn cael ei wneud yn ystod 2004-05.</li></ul>

## Yr Is-adran Moderneiddio Llywodraeth Leol

<b>Agwedd ar Gydraddoldeb</b>	
<b>Cydraddoldeb Cyffredinol/Trosfwaol</b>	<p><b>Cyngor Partneriaeth Cymru</b></p> <ul style="list-style-type: none"><li>• Bu'r Cyngor Partneriaeth Llywodraeth Leol yn ystyried adroddiad blynyddol Uned Cydraddoldeb Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Roedd yr adroddiad yn nodi sut yr oedd yr Uned yn gweithio mewn partneriaeth â Llywodraeth y Cynulliad a sefydliadau eraill er mwyn datblygu a gweithredu agenda cydraddoldeb ym maes llywodraeth leol yng Nghymru.</li></ul> <p><b>Dyfarndaliadau am Wasanaeth a Roddwyd</b></p> <ul style="list-style-type: none"><li>• Anogodd y cynllun Dyfarndaliad am Wasanaeth a Roddwyd gynghorwyr sydd wedi rhoi gwasanaeth maith i roi'r gorau i'w seddi yn etholiadau 2004 a gadael i ymgeiswyr eraill ddod ymlaen fel rhan o'r polisi i gael mwy o amrywiaeth mewn llywodraeth leol.</li></ul> <p><b>Pensiynau</b></p> <ul style="list-style-type: none"><li>• Mae'r Cynulliad (ar y cyd â Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog) wedi cyflwyno rheoliadau sy'n ychwanegol at y fframwaith lwfansau newydd a gyflwynwyd gan y Cynulliad er mwyn annog amrywiaeth ehangach mewn llywodraeth leol drwy ei gwneud yn haws i bobl o oed gweithio ddechrau gwasanaethu ar y cyngor.</li></ul> <p><b>Gwelliant Parhaus</b></p> <ul style="list-style-type: none"><li>• Roedd yn ofynnol i awdurdodau lleol baratoi Cynlluniau Gwella Blynyddol. Roedd Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi gofyn i 'Syniad' (cangen welliannau Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) ac Uned Cydraddoldeb CLILC edrych pa mor dda yr oeddent yn cyflawni rhwymedigaethau statudol awdurdodau lleol gyda golwg ar gydraddoldeb hiliol, ac agweddau eraill ar gyfle cyfartal, a byddent yn sicrhau bod unrhyw argymhellion yn ymwneud â sut y gallai awdurdodau lleol atgyfnerthu cynlluniau gwella, mewn perthynas â chyfle cyfartal, yn cael sylw.</li><li>• Parhaodd Llywodraeth y Cynulliad i ddarparu grant ar gyfer Uned Cydraddoldeb CLILC, a'u cylch gorchwyl, sef helpu awdurdodau lleol i gyflawni eu rhwymedigaethau cydraddoldeb a chynorthwyo i sicrhau bod cydraddoldeb yn rhan annatod o'r ffordd y mae llywodraeth leol yn gweithio.</li></ul>

	<p><b>Adolygiad o'r Fframwaith Mesur Perfformiad</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Comisiynodd Llywodraeth Cynulliad Cymru Uned Data Llywodraeth Leol – Cymru i wneud adolygiad 2-flynedd o'r fframwaith a'r dangosyddion perfformiad a ddefnyddir i fesur perfformiad awdurdodau lleol. Roedd Uned Cydraddoldeb CLILC wedi bod yn gweithio gyda'r Uned Ddata, a'r timau arbenigol a sefydlwyd er mwyn cynnig mesuryddion ym mhob maes gwasanaeth, a sicrhau bod ystyriaethau cydraddoldeb wedi cael eu cynnwys yn eu gwaith wrth ddatblygu mesuryddion ar gyfer llywodraeth leol. Bydd y gwaith hwn yn parhau yn 2004-05 a byddir yn ymgynghori ynghylch cyfres newydd o fesuryddion statudol a fydd yn cael eu gweithredu erbyn Ebrill 2005.</li> </ul>
<p><b>Anabledd</b></p>	<p><b>Etholiadau'n Eithrio</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Derbyniodd yr Is-adran Moderneiddio Llywodraeth Leol yr adroddiad Etholiadau'n Eithrio ar etholiadau'r Cynulliad Cenedlaethol yng Ngorffennaf 2003. Ar y cyd â'r Comisiwn Etholiadol trefnodd yr Is-adran seminar er mwyn hybu arferion da yn y broses etholiadau (gan gynnwys arferion mynediad da) a bu SCOPE hefyd yn ymwneud â'r seminar.</li> </ul> <p><b>Etholiadau'r Cynulliad</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Rhoddodd y Cynulliad nawdd ariannol o 50% ar gyfer darparu rampiau dros dro er mwyn gwella mynediad i adeiladau yn ystod etholiadau'r Cynulliad yn 2003. Darparwyd cyfarpar pleidleisio ar gyfer pobl sydd â golwg rhannol mewn gorsafoedd pleidleisio hefyd er mwyn helpu pleidleiswyr i lenwi papurau pleidleisio.</li> </ul>
<p><b>Hil</b></p>	<p><b>Sipsiwn Crwydrol</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Cynhaliwyd dau gyfarfod gyda swyddogion perthnasol o'r awdurdodau lleol er mwyn trafod materion yn ymwneud â llety ar gyfer Sipsiwn a Chrwydriaid, gan gynnwys manyleb ymchwil arfaethedig a chanllawiau diwygiedig arfaethedig ar reoli gwersylla heb ganiatâd.</li> <li>Cyswllt agos â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a'r Uned Polisi Cydraddoldeb er mwyn trefnu Seminar Cymru Gyfan yn Nhachwedd ar gyfer awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd Lleol i drafod Adroddiad y Pwyllgor Cyfle Cyfartal "Adolygiad o'r Gwasanaethau a Ddarperir i Sipsiwn a Chrwydriaid".</li> </ul>

- |  |  |
|--|--|
|  | <ul style="list-style-type: none"><li>• Cysylltu â Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog ynghylch newidiadau posibl i ddeddfwriaeth sylfaenol yn ymwneud â llety i Sipsiwn Crwydrol.</li></ul> |
|--|--|

### Y Gyfarwyddiaeth dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon – Y Gangen Gelfyddydau

<b>Agwedd ar Gydraddoldeb</b>	
<b>Anabledd</b>	<p><b>‘Moving Beyond’ – Strategaeth ar gyfer Anabledd a’r Celfyddydau</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Bu Cyngor Celfyddydau Cymru’n gweithio mewn partneriaeth â Chelfyddydau Anabledd Cymru er mwyn llunio Strategaeth ar gyfer Anabledd a’r Celfyddydau a fydd yn cael ei lansio yn Ionawr 2005. Bu Cyngor y Celfyddydau’n ymgynghori’n eang ynghylch y Strategaeth, a gafodd dderbyniad da iawn, yn enwedig gan sefydliadau pobl anabl.</li> </ul>
<b>Hil</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae llythyr cylch gwaith Cyngor Celfyddydau Cymru’n nodi ei bod yn ofynnol iddo gynnwys manylion yn ei gynllun gweithredol yn nodi sut y bydd ei <b>Strategaeth Amrywiaeth</b> yn mynd i’r afael â rhwystrau sy’n atal grwpiau penodol rhag cymryd rhan.</li> <li>• Mae Cyngor Celfyddydau Cymru ar hyn o bryd yn monitro trefniadau recriwtio, staff a chynghorwyr, ac mae wrthi ar hyn o bryd yn chwilio am gyrfff hyfforddi perthnasol i gyflwyno hyfforddiant cydraddoldeb hiliol i’w staff a’i aelodau (fel rhan o’i Strategaeth Amrywiaeth Ddiwylliannol).</li> </ul>

### Y Gyfarwyddiaeth dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon – Uned yr Iaith Gymraeg

<b>Agwedd ar Gydraddoldeb</b>	
<b>Cydraddoldeb Cyffredinol/Trosfwaol</b>	<p><b>Cynllun Iaith Gymraeg ar gyfer Llywodraeth Cynulliad Cymru</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Gwaith tîm Cynllun yr Iaith Gymraeg oedd hybu cydraddoldeb ieithyddol rhwng y Gymraeg a’r Saesneg. Manteisiodd y tîm ar gyfleoedd priodol i ddangos tebygrwydd rhwng cydraddoldeb ieithyddol a chydraddoldeb mewn meysydd eraill, er enghraifft wrth ddarparu cyngor i gydweithwyr, ac wrth gynnal sesiynau briffio/hyfforddi ar ymwybyddiaeth ieithyddol (cynhaliwyd tua 30 sesiwn o’r fath yn ystod 2003-4).</li> </ul> <p><b>Mae’r Gyfarwyddiaeth dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon yn gyfrifol am noddi Bwrdd yr Iaith</b></p>

	<p><b>Gymraeg</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae gan y Bwrdd gyfrifoldeb statudol i hybu a hwyluso defnydd o'r iaith Gymraeg. Mae'r Bwrdd hefyd yn gyfrifol am gymeradwyo Cynlluniau Iaith Gymraeg er mwyn gweithredu'r egwyddor sydd yn Neddf yr Iaith Gymraeg, sef y dylid trin y Gymraeg a'r Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal.</li> </ul>
<b>Oedran</b>	<p><b>Cynyddu gweithgareddau i bobl ifanc</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Yn 2003-04 cyflawnodd Bwrdd yr Iaith waith penodol ym maes ieuenctid. Roedd y gwaith yn canolbwyntio ar 3 maes: <ul style="list-style-type: none"> <li>• rhwydweithio Clybiau Ffermwyr Ieuaic sy'n defnyddio'r Gymraeg;</li> <li>• gweithio mewn partneriaeth â'r Cyngor Chwaraeon, yr Urdd, a llywodraeth leol ym maes chwaraeon; a</li> <li>• rhwydweithio'r cyrff hynny sydd â diddordeb mewn datblygu cerddoriaeth bop a roc yn y Gymraeg.</li> </ul> </li> </ul> <p><b>Strategaeth Farchnata</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Roedd strategaeth farchnata Bwrdd yr Iaith Gymraeg a lansiwyd yn 2003 yn cynnwys prosiectau a oedd yn anelu at gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg ymhlith pobl ifanc.</li> </ul>
<b>Anabledd</b>	<p>Mae'r Gyfarwyddiaeth dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon yn gyfrifol am noddi Cyngor Llyfrau Cymru</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae Llyfrau Llafar Saesneg wedi cynyddu mewn poblogrwydd yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Daeth Cyngor Llyfrau Cymru'n ymwybodol o'r galw am ddarpariaeth debyg yn y Gymraeg ac, o ganlyniad, penderfynodd ariannu llyfrau llafar.</li> <li>• <b>Ym mlwyddyn ariannol 2003/04, roedd £6,000 o'r arian a dderbyniodd Cyngor Llyfrau Cymru gan Lywodraeth Cynulliad Cymru wedi ei glustnodi ar gyfer llyfrau llafar a chyhoeddwyd tri llyfr.</b></li> </ul>

## CADW

<b>Agwedd ar Gydraddoldeb</b>	
<b>Anabledd</b>	<b>Mynediad i'r Anabl</b> <ul style="list-style-type: none"><li>• Yn 2003-04 ymgynghorodd CADW â'r Comisiwn Hawliau Anabledd ac yn dilyn hynny cyhoeddwyd <i>Goresgyn y Rhwystrau</i>, canllaw ar fynediad i adeiladau hanesyddol ar gyfer pobl anabl;</li><li>• parhaodd i gynyddu ymwybyddiaeth o anabledd drwy hyfforddiant ar gyfer staff sy'n delio gyda'r cyhoedd;</li><li>• cwblhaodd fodel rhithwir o Abaty Tyndyrn y gellid ei ddefnyddio er mwyn delio gyda phroblemau mynediad i bobl anabl;</li><li>• roedd pensaer hyfforddedig yn archwiliwr mynediad i bobl anabl, a bu'n gyfrifol am ran gyntaf yr archwiliad i fynediad i bobl anabl a wnaethpwyd mewn nifer o safleoedd sy'n eiddo i CADW.</li></ul>

## CyMAL: AMGUEDDFEYDD, ARCHIFAU A LLYFRGELLOEDD CYMRU

- Ni chyfrannodd CyMAL tuag at yr adroddiad hwn; fe'i sefydlwyd ar 1<sup>af</sup> Ebrill 2004, yn is-adran newydd yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru.

## **YR AMGYLCHEDD, CYNLLUNIO A CHEFN GWLAD**

---

- **Yr Is-adran Polisi Amaethyddiaeth a Physgodfeydd**
- **Yr Is-adran Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion**
- **Is-adran Rheoli'r Polisi Amaethyddol Cyffredin, Yr Is-adran Datblygu Bwyd a Ffermio**
- **Is-adran yr Amgylchedd, Yr Is-adran Gynllunio**
- **Yr Is-adran Polisi Gwledig**
- **Uned Busnes, yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad**

<b>Agwedd ar Gydraddoldeb</b>	
<b>Cydraddoldeb Cyffredinol/Trosfwaol</b>	<p><b>Comisiwn Dylunio Cymru</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Rhoddodd yr Adran arian craidd i Gomisiwn Dylunio Cymru a oedd yn annog cynhwysiant cymdeithasol yn ei waith.</li> <li>• Parhaodd yr is-adran gynllunio i hybu a chefnogi'r defnydd o ddylunio wrth greu adeiladau, lleoedd a mannau agored hygyrch a chynaliadwy drwy Gomisiwn Dylunio Cymru.</li> </ul> <p><b>Asiantaeth yr Amgylchedd, Cyngor Cefn Gwlad Cymru a'r Parciau Cenedlaethol</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Parhaodd Is-adran yr Amgylchedd i sicrhau bod Asiantaeth yr Amgylchedd, Cyngor Cefn Gwlad Cymru a'r Parciau Cenedlaethol yn gweithredu polisiau cydraddoldeb.</li> </ul> <p><b>Fforwm Cynllunio Cymru</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Gofynnodd yr Is-adran Gynllunio i Fforwm Cynllunio Cymru (sy'n cynnwys cynrychiolwyr o blith grwpiau lleiafrifoedd ethnig, grwpiau anabled, a sefydliadau merched, yn ogystal â rhanddeiliaid allweddol eraill yn y system gynllunio) weithredu fel bwrdd profi syniadau er mwyn gweithredu agenda 'Cynllunio: Cyflawni dros Gymru'.</li> </ul>

<p><b>Anabledd</b></p>	<p><b>Mynediad i Gefn Gwlad</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Rhoddwyd cydnabyddiaeth gyson i fuddiannau pobl anabl wrth baratoi ar gyfer mynediad i gefn gwlad: gyda chynrychiolwyr ar fforymau cenedlaethol a lleol, a chymau'n cael eu cymryd mewn perthynas â pholisïau'r Cynulliad ar fynediad i gefn gwlad er mwyn gwella'r prif ganolfannau mynediad.</li> </ul> <p><b>Aelodaeth o'r Cyngor Cefn Gwlad</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Bu Is-adran yr Amgylchedd yn ymwneud yn rhagweithiol â grwpiau pobl anabl a lleiafrifoedd ethnig er mwyn annog ceisiadau mwy amrywiol ar gyfer aelodaeth o'r Cyngor Cefn Gwlad, y Parciau Cenedlaethol ac Asiantaeth yr Amgylchedd – Cymru (â chanlyniadau siomedig).</li> </ul> <p><b>Fforwm Cynllunio Cymru</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Roedd Fforwm Cynllunio Cymru, bwrdd profi syniadau ar gyfer pob mater sy'n ymwneud â Chynllunio a'r Rhaglen <i>Cynllunio: Cyflawni dros Gymru</i>, yn cynnwys cynrychiolydd o Anabledd Cymru.</li> </ul>
<p><b>Hil</b></p>	<p><b>Strategaeth Amgylcheddol</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Ymgynghorwyd â chynrychiolwyr lleiafrifoedd ethnig ynghylch datblygu Strategaeth Amgylcheddol, ac ynghylch mynediad i gefn gwlad.</li> </ul>

## RHEOLI BUSNES A GWYBODAETH

### Rheoli Gwybodaeth (yn cynnwys Llywodraeth Well)

<b>Agwedd ar Gydraddoldeb</b>	
<b>Eraill</b>	<b>Cyhoeddi Gwybodaeth</b> <ul style="list-style-type: none"><li>Rhoddid ystyriaeth ofalus i'r posibilrwydd o gynhyrchu gwybodaeth a gyhoeddid mewn ffurfiau gwahanol a chynhyrchid safonau gwasanaeth ar gyfer ymatebion i geisiadau am wybodaeth mewn ieithoedd lleiafrifol.</li></ul>
<b>Cydraddoldeb Cyffredinol/Trosfwaol</b>	<b>Sefydlu Cysylltiadau</b> <ul style="list-style-type: none"><li>Sefydldd yr Adran rwydwaith o gysylltiadau (unigolion allweddol a grwpiau â diddordeb arbennig e.e. Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, Cyngor Cymru i'r Deillion) er mwyn sicrhau bod gwasanaethau'n cael cyhoeddusrwydd priodol ac yn cael eu haddasu lle bo angen er mwyn cwrdd ag anghenion cwsmeriaid. O ganlyniad i hyn, gofynnodd yr Adran am gymorth person dall i asesu a gwella'r gwasanaeth a ddarperir ganddi.</li></ul> <b>Rhaglen Ymweliadau</b> <ul style="list-style-type: none"><li>Datblygodd yr Adran raglen o ymweliadau â grwpiau cydraddoldeb allweddol er mwyn rhoi cyhoeddusrwydd i Fynediad at Wybodaeth a gwasanaethau'r Ganolfan Gyhoeddiadau. Gwahoddodd yr Adran amrediad eang o fyfyrwyr ac aelodau o CLAUD Cymru a oedd ag anghenion penodol.</li></ul>

## Y Gyfarwyddiaeth Ystadegau

<b>Agwedd ar Gydraddoldeb</b>	
<b>Cydraddoldeb Cyffredinol/Trosfwaol</b>	<p><b>Crynhoad o Ystadegau Cymru</b></p> <ul style="list-style-type: none"><li>Parhaodd y Gyfarwyddiaeth Ystadegau i gyhoeddi ei chompendiwm blynyddol, sy'n cynnwys ystadegau ar amrediad llawn o bynciau. Mae cyfran helaeth o'r wybodaeth sydd yn y llyfryn dwyieithog blynyddol hwn ar gael ar sail oedran a rhyw.</li></ul> <p><b>Arolwg o Lafurlu Cymru</b></p> <ul style="list-style-type: none"><li>Rhyddhawyd data o gronfa ddata Arolwg o Lafurlu Cymru ar gyfer y flwyddyn 2001 – 2003 ar StatsCymru. Roedd y rhain yn cynnwys tablau ar weithgaredd economaidd a galwedigaeth ar sail rhyw, nifer y bobl anabl a'u gweithgaredd economaidd, gweithgareddau economaidd pobl 50 oed a hŷn, ac ethnigrwydd. Dangoswyd yr holl wybodaeth fesul awdurdod unedol lle'r oedd y sampl yn caniatáu hynny.</li></ul>
<b>Oedran</b>	<p><b>Ffocws Ystadegol ar Bobl Hŷn yng Nghymru</b></p> <ul style="list-style-type: none"><li>Bu'r Gyfarwyddiaeth Ystadegau yn casglu ac yn paratoi ystadegau ar bobl hŷn yng Nghymru. Defnyddiwyd yr wybodaeth hon i lunio cyhoeddiad yn cymharu iechyd ac amgylchiadau cymdeithasol ac economaidd pobl hŷn ag amgylchiadau pobl mewn grwpiau iau.</li></ul>
<b>Anabledd</b>	<p><b>Ffocws Ystadegol ar Anabledd a Salwch Tymor Hir yng Nghymru</b></p> <ul style="list-style-type: none"><li>Cynhyrchodd y Gyfarwyddiaeth Ystadegau gyhoeddiad, a oedd yn cyflwyno amrediad o ystadegau yn ymwneud â phobl sydd ag anabledd neu salwch tymor hir. Roedd yn edrych ar eu hamgylchiadau cymdeithasol ac economaidd ac yn eu cymharu ag amgylchiadau pobl eraill. Roedd y cyhoeddiad yn cynnwys gwybodaeth o nifer o wahanol ffynonellau gan gynnwys Cyfrifiad Poblogaeth 2001 a'r Arolwg o'r Llafurlu.</li></ul>

<b>Rhyw</b>	<p><b>Cyrhaeddiad mewn Arholiadau ac Aseidiadau: Dadansoddiad yn ôl Rhyw (Bwletin Ystadegol)</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Cesglir yr holl ddata am gyrhaeddiad addysgol disgyblion ysgol yn ôl eu rhyw. Parhaodd y Gyfarwyddiaeth Ystadegau i gyhoeddi ei bwletin ystadegol blynyddol gan gymharu cyrhaeddiad gwrywod a benywod ar adeg aseidiadau Cyfnodau Allweddol ac mewn arholiadau allanol.</li> </ul>
<b>Hil</b>	<p><b>Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD)</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Cyflwynodd pob ysgol gynradd, uwchradd ac arbennig ddata am gefndir ethnig a hunaniaeth genedlaethol. Cynhwyswyd dadansoddiadau newydd mewn Datganiad Ystadegol Cyntaf a gyhoeddwyd yn Awst 2003.</li> </ul> <p><b>Cyfrifiad y Boblogaeth 2001: Canlyniadau cyntaf ar Grefydd</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Cyhoeddodd y Gyfarwyddiaeth Ystadegau Fwletin Ystadegol byr yn tynnu sylw at y canlyniadau cyntaf ar Grefydd o Gyfrifiad y Boblogaeth 2001 yn Ebrill 2003. Mae'n edrych yn gyffredinol ar yr hyn a nodwyd gan bobl yng Nghymru fel eu crefydd mewn ymateb i'r cwestiwn gwirfoddol.</li> </ul> <p><b>Cyfrifiad y Boblogaeth 2001: Canlyniadau cyntaf ar Wlad Enedigol</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Cyhoeddodd y Gyfarwyddiaeth Ystadegau Fwletin Ystadegol byr yn tynnu sylw at y canlyniadau cyntaf ar Wlad Enedigol o Gyfrifiad y Boblogaeth 2001 yn Ebrill 2003. Roedd yn edrych yn gyffredinol ar faterion yn ymwneud ag ym mhle y ganwyd pobl sy'n byw yng Nghymru ac, yn fwyaf arbennig, a gawsant eu geni yn y DU, yn Ewrop neu yn rhywle arall.</li> </ul>

## YR ADRAN IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL

<b>Agwedd ar Gydraddoldeb</b>	
<b>Cydraddoldeb</b>  <b>Cyffredinol/Trosfwaol</b>	<p><b>Y Rhaglen Rhoi Plant yn Gyntaf</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Diben y rhaglen hon yw trawsnewid ansawdd ac ystod y gwasanaethau cymdeithasol i blant mewn angen a'u teuluoedd yng Nghymru, a sicrhau bod plant mewn angen yn ennill y cyfleoedd mwyaf posibl yn eu bywydau trwy gyfrwng addysg, gofal iechyd a gofal cymdeithasol, a'u bod yn ddiogel. O dan y rhaglen "Rhoi Plant yn Gyntaf" y mae rhai o'r gwelliannau mwyaf wedi'u gwireddu ym maes iechyd.</li> </ul> <p><b>Y Gronfa Anghydraddoldebau Iechyd</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Datblygwyd y Gronfa ymhellach er mwyn ysgogi a chefnogi camau lleol i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd a'r ffactorau sy'n cyfrannu atynt, gan gynnwys anghydraddoldebau o ran cael gafael ar wasanaethau iechyd.</li> </ul>
<b>Anabledd</b>	<p><b>Ymgynghoriad â Phlant a Phobl Ifanc Anabl a'u rhieni/gofalwyr</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Comisiynwyd Barnardos (Cymru) ac NCH (Cymru) i ymgynghori â phlant anabl yng Nghymru ynghylch eu barn hwy ar y gwasanaethau y maent yn eu derbyn a'u hargymhellion i wella'r gwasanaethau hynny.</li> <li>Comisiynwyd Cyswllt Teulu i gynnal cyfres o ddigwyddiadau ymgynghori gyda rhieni/gofalwyr ledled Cymru ar y Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol. Defnyddiwyd canfyddiadau'r ddau ymgynghoriad i lywio datblygiad y Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer Plant, sydd bellach yn destun ymgynghoriad tan 21 Ionawr.</li> </ul> <p><b>Cynhadledd - Paratoi ar gyfer y Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol, Gwasanaethau Cydgysylltiedig ar gyfer Plant Anabl</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Ariannwyd cynhadledd aml-asiantaeth yn y CIA yng Nghaerdydd i dros 200 o gynrychiolwyr.</li> </ul> <p><b>Rhwydwaith Rhannu'r Gofal</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Ariannwyd a threfnwyd ymgyrch bosteri ledled Cymru gan Rwydwaith Rhannu'r Gofal i recriwtio mwy o ofalwyr seibiant byr ar gyfer plant anabl, er mwyn rhoi egwyl i'w teuluoedd o ofalu.</li> </ul>

	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Rhoddwyd cyllid grant i Rwydwaith Rhannu'r Gofal am Weithiwr Datblygu yng Nghymru, i hyrwyddo cynlluniau seibiant byr yng Nghymru.</li> <li>• Rhoddwyd grant cychwynnol i Rwydwaith Rhannu'r Gofal i hyrwyddo seibiant byr i deuluoedd yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon.</li> </ul> <p><b>Lles yng Nghymru (Gwell lechyd Gwell Cymru II)</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Cynhyrchwyd y ddogfen ymgynghori mewn print bras, braille a thâp sain, a dosbarthwyd y ddogfen yn eang mewn llyfrgelloedd, canolfannau gwaith ac ar y we.</li> </ul> <p><b>Anghenion Gwybodaeth lechyd Grwpiau o Bobl sydd â Nam ar eu Golwg</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Cyhoeddwyd crynodeb ymchwil o'r adolygiad llenyddiaeth, ac y mae'n cael ei ddosbarthu ar hyn o bryd.</li> </ul> <p><b>Y Gweithgor Gofal Plant</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Lluniwyd y gweithgor hwn i adolygu ac adeiladu ar y Cynllun Gweithredu Gofal Plant, ac i ddechrau datblygu bidiau strategol Amcan 1 ac Amcan 3 ar gyfer gofal plant, yn enwedig er mwyn cyrraedd y menywod sydd fwyaf dan anfantais ledled Cymru, a'u galluogi i gael gafael ar waith a hyfforddiant.</li> </ul>
<b>Hil</b>	<p><b>Cymdeithas Saheli Cymru Gyfan</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Rhoddwyd cyllid grant i'r Gymdeithas hon er mwyn cefnogi plant a theuluoedd mewn cymunedau lleiafrifoedd ethnig, yn enwedig cymunedau Mwslemaidd.</li> </ul> <p><b>Asesu anghenion plant a theuluoedd</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Comisiynwyd gwaith ymchwil yn 2003, ar y cyd â'r Adran lechyd, i'r defnydd a wneir o Systemau Plant Integredig gyda phlant o leiafrifoedd ethnig a'u teuluoedd.</li> </ul>

## SWYDDFA'R CWNSLER CYFFREDINOL

<b>Agwedd ar Gydraddoldeb</b>	
<b>Cydraddoldeb Cyffredinol/Trosfwaol</b>	<p><b>Sicrhau bod cyngor cyfreithiol yn bodloni'r prawf cydraddoldeb</b></p> <ul style="list-style-type: none"><li>• Roedd yr holl gyngor cyfreithiol a roddwyd yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth hawliau cyfartal.</li></ul> <p><b>Sicrhau bod is-ddeddfwriaeth yn bodloni'r prawf cydraddoldeb</b></p> <ul style="list-style-type: none"><li>• Roedd pob is-ddeddfwriaeth yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth hawliau cyfartal.</li></ul> <p><b>Sicrhau bod arferion recriwtio a dyrchafu yn Swyddfa'r Cwnsler Cyffredinol yn bodloni'r prawf cydraddoldeb</b></p> <ul style="list-style-type: none"><li>• Roedd yr arferion recriwtio hyd at Raddfeydd 5, 6 a 7 yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth hawliau cyfartal.</li></ul> <p><b>Sicrhau bod cyfleoedd ar gyfer lleoliadau gwaith a hyfforddeion cyfreithiol yn bodloni'r prawf cydraddoldeb</b></p> <ul style="list-style-type: none"><li>• Sicrhawyd gyda'r Adran Adnoddau Dynol bod y cynllun lleoliadau gwaith yn gydnaws.</li><li>• Cynigiwyd lleoliad gwaith i fyfyrwr Ysgoloriaeth Chevening Prydain.</li></ul> <p><b>Rhoi cyhoeddusrwydd i Swyddfa'r Cwnsler Cyffredinol / y Cynulliad fel cyflogwr cyfle cyfartal</b></p> <ul style="list-style-type: none"><li>• Cyflwyno yn yr Eisteddfod Genedlaethol ac mewn Ffeiriau Prifysgolion.</li></ul>

## AROLYGIAETH GWASANAETHAU CYMDEITHASOL CYMRU

Agwedd ar Gydraddoldeb	
<b>Cydraddoldeb Cyffredinol/Trosfwaol</b>	<p><b>Arolygiadau AGCC</b></p> <ul style="list-style-type: none"><li>• Arolygwyd awdurdodau lleol gan edrych:<ul style="list-style-type: none"><li>• pa mor dda oeddent am ennyn diddordeb grwpiau lleiafrifol ac anodd eu cyrraedd;</li><li>• faint o wasanaethau sy'n cael eu darparu drwy gyfrwng y Gymraeg ac ieithoedd eraill;</li><li>• pa drefniadau mynediad sydd ganddynt ar gyfer pobl sydd ag anableddau a namau eraill.</li></ul></li></ul> <p><b>Gwerthuso Perfformiad Blynyddol Awdurdodau Lleol</b></p> <ul style="list-style-type: none"><li>• Roedd gwerthusiad blynyddol yr Arolygiaeth o berfformiad awdurdodau lleol yn cynnwys adran ar gydraddoldeb ac amrywiaeth.</li></ul> <p><b>Y Gweithlu Gofal Cymdeithasol</b></p> <ul style="list-style-type: none"><li>• Roedd y gweithlu gofal cymdeithasol yn cael ei fonitro gan edrych ar ryw, hil ac anabledd.</li></ul> <p><b>Ymgynghori â Rhanddeiliaid</b></p> <ul style="list-style-type: none"><li>• Roedd yr Arolygiaeth yn ymgynghori â rhanddeiliaid, fel Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, ynghylch ein rhaglenni datblygu ac arolygu.</li></ul> <p><b>Canllawiau Datblygu Gwasanaeth ac Ymarfer</b></p> <ul style="list-style-type: none"><li>• Roedd yr Arolygiaeth yn sicrhau bod canllawiau datblygu gwasanaeth ac ymarfer yn cynnwys cyfeiriad priodol at faterion cydraddoldeb.</li></ul>

<b>Anabledd</b>	<p><b>Arolwg o Ddarparu Taliadau Uniongyrchol i Bobl Anabl</b></p> <ul style="list-style-type: none"><li>• Gwnaethpwyd arolwg o ddarparu taliadau uniongyrchol i bobl anabl sy'n derbyn gwasanaethau gofal cymdeithasol.</li></ul> <p><b>Astudiaeth Nuffield o Wasanaethau ar gyfer Pobl Anabl</b></p> <ul style="list-style-type: none"><li>• Comisiynwyd astudiaeth Nuffield o wasanaethau ar gyfer pobl anabl.</li></ul>
-----------------	---

## SWYDDFA'R PRIF SWYDDOG MEDDYGOL

### Is-adran Strategaeth Iechyd y Cyhoedd

<b>Agwedd ar Gydraddoldeb</b>	
<b>Cydraddoldeb Cyffredinol/Trosfwaol</b>	<p><b>Uned Gymorth Asesu'r Effaith ar Iechyd yng Nghymru</b></p> <ul style="list-style-type: none"><li>Sefydlwyd Uned Gymorth Asesu'r Effaith ar Iechyd yng Nghymru gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yn 2001 er mwyn datblygu asesiadau o'r effaith ar iechyd ac annog sefydliadau yng Nghymru i'w defnyddio. Roedd y dull gweithredu yn cynnwys ystyriaeth o agweddau yn ymwneud ag anghydraddoldeb ym maes iechyd. Ymestynnwyd Contract Uned Gymorth Asesu'r Effaith ar Iechyd yng Nghymru am dair blynedd arall yn Hydref 2003.</li></ul> <p><b>Cronfa Anghydraddoldebau Iechyd</b></p> <ul style="list-style-type: none"><li>Parhawyd i ddatblygu'r Gronfa gyda'r bwriad o sbarduno a chefnogi gweithrediadau lleol er mwyn rhoi sylw i anghydraddoldeb iechyd, a'r ffactorau sy'n cyfrannu tuag ato, gan gynnwys annhegwch mewn mynediad at wasanaethau iechyd.</li></ul> <p><b>Ystadegau ar gydraddoldeb mewn mynediad at wasanaethau gofal iechyd</b></p> <ul style="list-style-type: none"><li>Cafodd y gwaith hwn ei wneud fel rhan o'n gwaith i Bwyllgor Sefydlog Townsend (anghydraddoldeb iechyd). Roedd y gwaith yn cynnig dull gweithredu mewn dwy ran. Roedd y rhan gyntaf yn edrych ar faterion cysyniadol yn ymwneud ag annhegwch o ran mynediad ac, â chymorth cydweithwyr yn yr Is-adran Ystadegau, archwiliwyd ffynonellau ystadegau iechyd a gasglwyd gan Lywodraeth y Cynulliad er mwyn canfod i ba raddau yr oeddent yn cynnwys newidion nodweddiadol sy'n gysylltiedig ag anghydraddoldeb iechyd. Cafodd y rhan gyntaf ei gwneud yn fewnol, ond roedd Rhan 2 yn cynnwys dadansoddiad manylach ac ni ellid bwrw 'mlaen heb adnoddau ychwanegol.</li></ul> <p>Cynllun Grant Hyfforddiant Tegwch ac Eiriolaeth</p> <ul style="list-style-type: none"><li>Roedd y rhaglen beilot hon yn ffordd o godi ymwybyddiaeth a sicrhau bod mwy o ystyriaeth yn cael ei rhoi i anghydraddoldeb mewn iechyd ac annhegwch mewn mynediad at ofal iechyd, a datblygu rhagor ar y</li></ul>

trefniadau ar gyfer gwella iechyd mewn gwahanol sefydliadau. Ariannwyd cyfanswm o 25 prosiect er mwyn rhoi sylw i annhegwch mewn mynediad at iechyd ac mae'r prosiectau hyn wedi darparu enghreifftiau o'r hyn y gellir ei gyflawni a sut y gall gweithwyr proffesiynol ym maes iechyd ysgogi gweithrediadau y tu allan i rolau prif ffrwd. Mae'r enghreifftiau o brosiectau yn cynnwys: darparu hyfforddiant amrywiaeth ddiwylliannol aml-broffesiynol i 12 tîm gofal iechyd sylfaenol; gwella iechyd rhywiol y boblogaeth iau mewn cymunedau lleiafrifoedd ethnig a chamau er mwyn hwyluso cyfathrebu a thrafodaeth rhwng gweithwyr proffesiynol ym maes iechyd, unigolion a grwpiau bychain (cymunedau lleiafrifoedd ethnig).

### **Lles yng Nghymru**

- Ym Medi 2003 cyfarfu grwpiau cydraddoldeb Llywodraeth y Cynulliad unwaith yn rhagor â chydweithwyr o Strategaeth Iechyd y Cyhoedd er mwyn adolygu cynnydd â 'Lles yng Nghymru' a chynnig y camau nesaf. Roedd y grwpiau hyn yn cynnwys Clymblaid Menywod Cymru, Anabledd Cymru, Cymdeithas Lleiafrifoedd Ethnig Cymru Gyfan (AWEMA) a'r Fforwm Lesbaid, Hoywon a Phobl Ddeurywiol.

### **Oedran**

#### **Ymgyrch Gofal Piau Hi y Gaeaf Hwn**

- Darparodd ymgyrch 2004 wybodaeth a chefnogaeth i bobl 65 oed a throsodd er mwyn eu helpu i gadw'n iach dros y gaeaf. Dosbarthodd Age Concern Cymru dros 8,000 o becynnau yn ymwneud â'r Ymgyrch i bobl hŷn. Dosbarthodd Care and Repair Cymru dros 5,000 o lyfrynnau *Cyngor Diogelu Cartrefi*. Yn ôl EAGA cyfeiriwyd 11,821 o bobl 60 oed a throsodd at y cynllun Effeithlonrwydd Ynni Cartref, ac roedd cyfran helaeth o'r rhain yn deillio o'u partneriaeth gyda'r ymgyrch Gofal Piau Hi y Gaeaf Hwn. Parhaodd yr ymgyrch i ddarparu cymorth wedi ei dargedu i bobl gyda nam ar eu golwg, mewn partneriaeth â Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol y Deillion (RNIB). Yn ystod ymgyrch Gofal Piau Hi y Gaeaf Hwn 2003-04, anfonodd y sefydliad 400 o gylchlythyrau print clir a 400 o dapiau yn cynnwys gwybodaeth Gofal Piau Hi y Gaeaf Hwn at bobl sydd wedi colli eu golwg, anfonodd y negeseuon Gofal Piau Hi y Gaeaf Hwn i 26 o glybiau lleol ar gyfer y deillion (tua 216 o bobl) a mynychodd 13 o weithgareddau wedi eu trefnu gan awdurdodau lleol mewn gwahanol rannau o Gymru. Darparwyd gwybodaeth a chymorth ganddynt i 800 o unigolion yn eu cartrefi eu hunain drwy'r Timau Cyngori Budd-daliadau yng Nghonwy, Ynys Môn, Gwynedd, Casnewydd a Rhondda Cynon Taf.

<b>Anabledd</b>	<p><b>Lles yng Nghymru</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Ym Medi 2003 cyfarfu grwpiau cydraddoldeb Llywodraeth y Cynulliad unwaith yn rhagor â chydweithwyr o Strategaeth Iechyd y Cyhoedd er mwyn adolygu cynnydd â 'Lles yng Nghymru' a chynnig y camau nesaf. Roedd y grwpiau hyn yn cynnwys Clymblaid Menywod Cymru.</li> </ul>
<b>Rhyw</b>	<p><b>Lles yng Nghymru</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Ym Medi 2003 cyfarfu grwpiau cydraddoldeb Llywodraeth y Cynulliad unwaith yn rhagor â chydweithwyr o Strategaeth Iechyd y Cyhoedd er mwyn adolygu cynnydd â 'Lles yng Nghymru' a chynnig y camau nesaf. Roedd y grwpiau hyn yn cynnwys Anabledd Cymru.</li> </ul>
<b>Hil</b>	<p><b>Lles yng Nghymru</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Ym Medi 2003 cyfarfu grwpiau cydraddoldeb Llywodraeth y Cynulliad unwaith yn rhagor â chydweithwyr o Strategaeth Iechyd y Cyhoedd er mwyn adolygu cynnydd â 'Lles yng Nghymru' a chynnig y camau nesaf. Roedd y grwpiau hyn yn cynnwys AWEMA.</li> </ul>
<b>Tueddfryd Rhywiol</b>	<p><b>Lles yng Nghymru</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Ym Medi 2003 cyfarfu grwpiau cydraddoldeb Llywodraeth y Cynulliad unwaith yn rhagor â chydweithwyr o Strategaeth Iechyd y Cyhoedd er mwyn adolygu cynnydd â 'Lles yng Nghymru' a chynnig y camau nesaf. Roedd y grwpiau hyn yn cynnwys y Fforwm Lesbiaid, Hoywon a Phobl Ddeurywiol.</li> </ul>

## Yr Is-adran Diogelu Iechyd y Cyhoedd

<b>Agwedd ar Gydraddoldeb</b>	
<b>Cydraddoldeb Cyffredinol/Trosfwaol</b>	<p><b>Rhaglenni Imiwneiddio</b></p> <ul style="list-style-type: none"><li>Targedwyd rhaglenni imiwneiddio er mwyn rhoi sylw i nifer yr achosion o afiechydon sy'n codi. Gallai grwpiau penodol o fewn y boblogaeth fod yn agored neu'n fwy agored oherwydd oedran, anabledd, cyflwr meddygol parhaus, neu gysylltiad â chlefydau o ganlyniad i deithio (uniongyrchol neu anuniongyrchol). Teilwriwyd gwybodaeth i'r cyhoedd o ganlyniad er mwyn cwrdd ag anghenion y rhaglen unigol dan sylw.</li></ul> <p><b>Rheoli Afiechydon Trosglwyddadwy</b></p> <ul style="list-style-type: none"><li>Bu'r Is-adran Diogelu Iechyd y Cyhoedd yn gweithio mewn cysylltiad agos â'i phartneriaid er mwyn atal salwch a diogelu iechyd y cyhoedd drwy ddarparu cyngor a chymryd camau er mwyn rheoli afiechydon trosglwyddadwy sydd â goblygiadau sylweddol o ran iechyd y cyhoedd e.e. THT mewn perthynas â grwpiau mwy agored fel cymunedau Affricanaidd, ceiswyr lloches a dynion hoyw.</li></ul>

## Yr Is-adran Hybu Iechyd

<b>Agwedd ar Gydraddoldeb</b>	
<b>Cydraddoldeb Cyffredinol/Trosfwaol</b>	<p><b>Cynllun Grant Hybu Iechyd Bwyd a Ffitrwydd</b></p> <ul style="list-style-type: none"><li>Roedd y Cynllun Grant Hybu Iechyd Bwyd a Ffitrwydd yn ariannu prosiectau a oedd yn rhoi sylw i faterion penodol yn ymwneud ag oedran, anabledd a hil.</li></ul> <p><b>Cynllun Grant Sector Gwirfoddol Hybu Iechyd</b></p> <ul style="list-style-type: none"><li>Roedd y Cynllun Grant Sector Gwirfoddol Hybu Iechyd yn ariannu prosiectau a oedd yn rhoi sylw i faterion penodol yn ymwneud ag oedran, hil a thueddfryd rhywiol.</li></ul>

<b>Oedran</b>	<p><b>Hybu Iechyd ar gyfer Pobl Hŷn: Adolygiad o Lenyddiaeth</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Cynhyrchu a dosbarthu'r Adroddiad Technegol <i>Hybu Iechyd ar gyfer Pobl Hŷn: adolygiad o lenyddiaeth</i>.</li> </ul> <p><b>Cynllun Gweithredu Hybu Iechyd ar gyfer Pobl Hŷn</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Datblygwyd Cynllun Gweithredu Hybu Iechyd ar gyfer Pobl Hŷn mewn ffurf ddrafft. Tynnwyd sylw hefyd yn y Cynllun gweithredu at anghenion pobl hŷn o grwpiau lleiafrifoedd ethnig, a phobl hŷn anabl, a'r gwaith ymchwil i'r grwpiau hyn a fydd yn cael ei wneud yn yr Is-adran.</li> </ul>
<b>Rhyw</b>	<p><b>Hysbysebion Rhoi'r Gorau i Ysmygu</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Roedd yr hysbysebion a dargedwyd tuag at bobl ifanc yn eu harddegau er mwyn eu cael i roi'r gorau i ysmygu yn canolbwyntio ar fechgyn a merched ar wahân. Roedd yr hysbysebion ar gyfer bechgyn yn canolbwyntio ar yr effaith ar eu gallu i redeg, a'r hysbysebion ar gyfer merched yn canolbwyntio ar yr effaith ar eu croen.</li> </ul>
<b>Hil</b>	<p><b>Rhaglen Iechyd ASERT Cymru</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Comisiynwyd Rhaglen Iechyd ASERT Cymru, rhaglen ymchwil i edrych ar faterion hybu iechyd ymhlith grwpiau lleiafrifoedd ethnig.</li> </ul> <p><b>Cymorth i Roi'r Gorau i Ysmygu mewn Mosgiau</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Darparwyd cymorth i roi'r gorau i ysmygu mewn mosgiau.</li> </ul> <p><b>Ffolder Ddiddyfnu Ddarluniadol</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Datblygwyd ffolder ddiddyfnu ddarluniadol maint A4 y gall ymwelwyr iechyd ei defnyddio gyda lleiafrifoedd ethnig.</li> </ul>
<b>Tueddfryd Rhywiol</b>	<p><b>Ymgyrchoedd Cenedlaethol i Atal HIV</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Ymgyrchoedd Cenedlaethol i Atal HIV yn targedu dynion hoyw.</li> </ul> <p><b>Cynlluniau Grantiau Condomau</b></p>

- Cynlluniau grantiau condomau – tynnu sylw at yr angen i sicrhau bod condomau ar gael i ddynion ifanc hoyw.

## Y Grwp Proffesiynolion Iechyd

<b>Agwedd ar Gydraddoldeb</b>	
<b>Cydraddoldeb Cyffredinol/Trosfwaol</b>	<b>Datblygu Eifen Gwell Gwasanaethau</b> <ul style="list-style-type: none"><li>• Datblygwyd elfen Gwell Gwasanaethau y Contract newydd ar gyfer Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol yn benodol er mwyn hybu a chwrdd ag anghenion meddygol lleiafrifoedd ag amddifadedd cymdeithasol mewn cymunedau lleol.</li></ul>
<b>Oedran</b>	<b>Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer Pobl Hŷn</b> <ul style="list-style-type: none"><li>• Yn gweithio ar wahaniaethu ar sail oedran fel elfen safonol yn y Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer Pobl Hŷn.</li></ul> <b>Meysydd Strategaeth a Datblygu Polisi</b> <ul style="list-style-type: none"><li>• Wedi cyfrannu tuag at feysydd strategaeth a datblygu polisi a oedd yn cynnwys defnyddwyr gwasanaeth a/neu gyfranwyr sector gwirfoddol o'r canlynol:<ul style="list-style-type: none"><li>• Darparu Therapi Lleferydd ac Iaith i Blant a Phobl Ifanc 0-19 oed;</li><li>• Y Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer Pobl Hŷn;</li><li>• Y Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer Plant;</li><li>• Polisi a Chynllun Gweithredu ar Arthritis ac Iechyd a Lles Cyhyrysgerbydol (Yr Is-adran Wyddonol).</li></ul></li></ul> <b>Archwiliad Iechyd i Bobl Dros 75 Oed yn y Contract Newydd ar gyfer Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol</b> <ul style="list-style-type: none"><li>• Gwaith polisi wedi ei gwblhau er mwyn sicrhau archwiliad iechyd ar gyfer pobl dros 75 oed yn y contract newydd ar gyfer gwasanaethau meddygol cyffredinol. (Dr D Phillips)</li></ul>

	<p><b>Grwp Strategaeth Iechyd Lleiafrifoedd</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Yn gweithio ar grwp strategaeth iechyd ar gyfer lleiafrifoedd dethol.</li> </ul> <p><b>Stigma ac Allgáu Cymdeithasol</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Gwaith ar stigma ac allgáu cymdeithasol.</li> </ul> <p><b>Rhoi Grym i Ofalwyr</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Gwaith ar roi grym i ofalwyr.</li> </ul>
<b>Anabledd</b>	<p><b>Comisiwn Hawliau Anabledd</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Yn gweithio gyda'r Comisiwn Hawliau Anabledd ar anghydraddoldeb iechyd ym meysydd iechyd meddwl ac anabledd.</li> </ul> <p><b>Canllawiau i Feddygon Teulu ar Bobl sydd ag Anabledd Clyw</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Anfonwyd canllawiau at bob meddyg teulu yng Nghymru yn ymwneud â gwasanaethau ar gyfer pobl sydd ag anabledd clyw.</li> </ul> <p><b>Cyfarfod y Grwp Cynghori Arbenigol Sefydlog ar Glywedeg</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Mynychodd cyrff sector gwirfoddol yn cynrychioli pobl sydd ag anabledd clyw gyfarfod y Grwp Cynghori Arbenigol Sefydlog ar Glywedeg a sefydlwyd gan Bwyllgor Cynghori Gwyddonol Cymru er mwyn mynegi barn defnyddwyr gwasanaeth.</li> </ul> <p><b>Astudiaeth Ddichonoldeb o Well Gwasanaeth ar gyfer Anableddau Dysgu</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Gwaith wedi ei wneud ar ddichonoldeb datblygu gwell gwasanaeth ar gyfer anableddau dysgu.</li> </ul>

<p><b>Rhyw</b></p>	<p><b>Anghenion Recriwtio a Chadw Arbennig Meddygon Teulu Benywaidd</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Aethpwyd ymlaen â'r gwaith ar anghenion recriwtio a chadw arbennig meddygon teulu benywaidd.</li> </ul>
<p><b>Hil</b></p>	<p><b>Y Ddarpariaeth ar gyfer Ethnigrwydd yn y Ddeddf Iechyd Meddwl</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• <b>Wedi gweithio gyda Chomisiwn y Ddeddf Iechyd Meddwl ar ethnigrwydd yn y Ddeddf Iechyd Meddwl.</b></li> </ul> <p><b>Rhwydweithiau'r Galon yng Nghymru</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Ei gwneud yn ofynnol i Rwydweithiau'r Galon yng Nghymru gynnwys anghenion amrywiol hiliau lleiafrifol wrth weithredu'r Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer Clefyd Coronaidd y Galon.</li> </ul> <p><b>Grwp Iechyd Meddwl Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig Cymru Gyfan</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Wedi gweithio gyda Grwp Iechyd Meddwl Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig Cymru Gyfan a Sahara ar iechyd meddwl ac ethnigrwydd, a mynychu diwrnod gwaith sefydliad Sainsbury ar bobl dduon a lleiafrifoedd ethnig mewn gwasanaethau iechyd meddwl.</li> </ul> <p><b>Gweithredu Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer Diabetes</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Gweithredu Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer diabetes gan gyfeirio'n benodol at lefelau uwch na'r cyffredin ymhlith rhai grwpiau o leiafrifoedd ethnig.</li> </ul> <p><b>Rhaglenni Cynefino a Hyfforddi</b></p>

- |  |   |
|--|---|
|  | <ul style="list-style-type: none"><li>• Wedi sefydlu polisi er mwyn cefnogi rhaglenni cynefino a hyfforddi ar gyfer Meddygon Teulu sy'n ymuno â'r GIG (Cymru) o wahanol gefndiroedd tramor.</li></ul> |
|--|---|

## HYFFORDDIANT AC ADDYSG

### Yr Is-adran Dysgu Gydol Oes

<b>Agwedd ar Gydraddoldeb</b>	
<b>Cydraddoldeb Cyffredinol/Trosfwaol</b>	<b>Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol</b> <ul style="list-style-type: none"><li>Mae'r Is-adran Dysgu Gydol Oes wedi monitro perfformiad Dysgu ac Addysgu Cymru (ELWa) yng nghydestun materion cydraddoldeb yn unol â'i adroddiad cydraddoldeb blynyddol; ei berfformiad o gymharu â'i gylch gorchwyl; a'i gynllun corfforaethol. Cydraddoldeb wedi ei gysylltu â phrif amcanion ELWa yn ei holl weithrediadau ac, fel yn achos y Cynulliad, roedd yn un o'i themâu trawsbynciol.</li></ul>
<b>Oedran</b>	<b>Prentisiaeth Pob Oedran</b> <ul style="list-style-type: none"><li>Dan y nod allweddol o wella sgiliau ar gyfer busnes, roedd ELWa wedi datblygu prentisiaeth ar gyfer pob oedran.</li></ul>
<b>Anabledd</b>	<b>Lleoliadau Hygyrch ar gyfer Dysgwyr Anabl</b> <ul style="list-style-type: none"><li>Mae ELWa'n darparu arian cyfalaf er mwyn sicrhau bod lleoliadau dysgu'n hygyrch ar gyfer dysgwyr anabl.</li></ul>
<b>Rhyw</b>	<b>Merched mewn Rheolaeth</b> <ul style="list-style-type: none"><li>Yn 2003/04, dechreuodd yr Is-adran Dysgu Gydol Oes gynllunio ar gyfer ymweliad i Gymru gan 7 rheolwr ysbyty o Sweden dan y rhaglen 'Merched mewn Rheolaeth' sy'n ceisio ehangu profiad merched, rhoi sylw i anghydraddoldeb rhwng dynion a merched ar lefel uwch reolwyr ac edrych ar faterion sy'n ymwneud â merched fel rheolwyr gan gynnwys cadw staff a phatrymau rôl. Byddai'r rhaglen yn cynnwys cyflwyniad gan Cyfle Cyfartal i Gymru ar bwnc rhyw a grym.</li></ul>

## Yr Is-adran Cymorth Disgyblion

<b>Agwedd ar Gydraddoldeb</b>	
<b>Cydraddoldeb Cyffredinol/Trosfwaol</b>	<p><b>Addysg Gynhwysol</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Datblygu a hybu arferion addysgol cynhwysol mewn ysgolion ac Awdurdodau Addysg Lleol ledled Cymru mewn perthynas â phlant a phobl ifanc sydd ag Anghenion Addysgol Arbennig. Cynhyrchwyd dogfen ymgynghori.</li> </ul> <p><b>Brecwast am Ddim</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Roedd yr Is-adran Cymorth Disgyblion yn gyfrifol am sefydlu'r prosiect brecwast am ddim sy'n ceisio rhoi cychwyn cyfartal i blant o bob cefndir.</li> </ul>
<b>Oedran</b>	<p><b>Datblygu'r Cwricwlwm Cyfnod Sylfaenol</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Cyhoeddwyd dogfen ymgynghori ym Mai 2003 yn amlinellu cynigion ar gyfer gweithredu Cyfnod Sylfaenol newydd a fyddai'n canolbwyntio ar ddatblygiad crwn plant ac yn rhoi dechrau da mewn bywyd i bob un ohonynt.</li> </ul>
<b>Anabledd</b>	<p><b>Adolygiad o Anghenion Dysgu Ychwanegol</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Cwblhaodd yr Is-adran Cymorth Disgyblion adolygiad o anghenion dysgu ychwanegol gyda'r bwriad o sicrhau bod systemau a threfniadau priodol yn bodoli er mwyn cefnogi anghenion dysgu ychwanegol plant a phobl ifanc.</li> </ul> <p><b>Seicoleg Addysg yng Nghymru</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Cyhoeddwyd dogfen ymgynghori yn Ionawr 2004 yn nodi gweledigaeth y Cynulliad ar gyfer darparu Seicolegwyr Addysg yng Nghymru. (Roedd y seicolegwyr yn ganolog i'r gwaith o gefnogi plant a phobl ifanc sydd ag anawsterau ymddygiad a rhai mathau o anghenion dysgu).</li> </ul> <p><b>Gwasanaethau Addysgol ar gyfer Plant a Phobl Ifanc sydd â Nam ar eu Clyw</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Cyhoeddwyd dogfen ymgynghori sy'n cynnig strategaethau er mwyn galluogi Awdurdodau Addysg Lleol i</li> </ul>

	<p>ddarparu gwasanaethau o ansawdd da a fydd yn codi safonau, ac yn darparu ymyriad a chymorth o safon uchel i blant a phobl ifanc sydd â nam ar eu clyw.</p> <p><b>Gwasanaethau Iaith a Lleferydd i Blant a phobl Ifanc</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Cyhoeddwyd dogfen ymgynghori ar y cyd â swyddogion Iechyd ym Mehefin 2003. Roedd y ddogfen hon yn sail i gyfarwyddyd ar gyfer AALLau a Gwasanaethau Iechyd ar ddarparu gwasanaethau iaith a lleferydd i blant a phobl ifanc yn y dyfodol.</li> </ul> <p><b>Grwp Ymgynghorol Llywodraeth Cynulliad Cymru ar Anghenion Addysgol Arbennig</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Parhaodd Grwp Ymgynghorol Cymru ar Anghenion Addysgol Arbennig (WAGSEN) i gyfarfod yn dymhorol er mwyn cynghori'r Cynulliad ynghylch y ffordd orau o weithredu'r polisi anghenion addysgol arbennig.</li> </ul> <p><b>Grwp Llywio Cenedlaethol ar gyfer Anghenion Addysgol Arbennig</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Cyfarfu'r Grwp Llywio er mwyn llunio strategaeth drosfwaol y Cynulliad ar gyfer anghenion addysgol arbennig.</li> </ul>
<b>Hil</b>	<p><b>Polisi a Grant Sipsiwn a Chrwydriaid</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Rheolodd ac adolygodd yr Is-adran Cymorth Disgyblion raglen grant £900k er mwyn gwella cyfle cyfartal ym maes addysg i Sipsiwn a Chrwydriaid.</li> </ul> <p><b>Ceiswyr Lloches a Phobl wedi'u Dadleoli</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Cyflwynodd yr Is-adran Cymorth Disgyblion gais am grant arbennig (drwy'r cyfarfod llawn) er mwyn cynorthwyo Awdurdodau Addysg Lleol i ddarparu addysg i blant ceiswyr lloches.</li> </ul> <p><b>Grant a Pholisi Cyrhaeddiad Lleiafrifoedd Ethnig</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Rheolodd yr Is-adran Cymorth Disgyblion gynllun grant gwerth miliynau o bunnoedd er mwyn hybu cyrhaeddiad plant a phobl ifanc o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig;</li> <li>• cyflogodd berson ar secondiad o Awdurdod Addysg Lleol i adolygu'r grant a'r gwasanaeth a ddarperir i blant a phobl ifanc o leiafrifoedd ethnig;</li> <li>• gwnaeth adolygiad o hyfforddiant ar gyfer athrawon arbenigol Saesneg fel iaith Ychwanegol ac ar gyfer</li> </ul>

	<p>athrawon ystafell ddosbarth prif ffrwd;</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• comisiynodd y Gymdeithas Saesneg fel Iaith Ychwanegol yng Nghymru i wneud gwaith ymchwil manwl i gyrhaeddiad plant a phobl ifanc o leiafrifoedd ethnig yng Nghymru.</li> </ul>
--	--

### Yr Is-adran Cyfranogiad Ieuencid a Disgyblion

<b>Agwedd ar Gydraddoldeb</b>	
<b>Cydraddoldeb Cyffredinol/Trosfwaol</b>	<p><b>‘Parchu Eraill: Canllawiau Gwrth-Fwlio’</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Cyhoeddwyd y canllawiau ym Medi 2003 er mwyn rhoi sylw i faterion bwlio ar sail hil, rhyw, tueddfryd rhywiol ac anabledd. Roeddent yn nodi strategaethau y gall ysgolion eu defnyddio er mwyn atal a rhoi sylw i achosion o fwlio.</li> </ul> <p><b>Partneriaethau Pobl Ifanc</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae’r Partneriaethau’n gweithio gyda grwpiau anodd eu cyrraedd a grwpiau diddordeb arbennig o bobl ifanc yn y gymdeithas. Drafftwyd adroddiadau cynnydd yn 2003-04 ac mae’r cynnydd yn cael ei fonitro. Gobeithir y bydd modd dangos a rhannu arferion da.</li> </ul> <p><b>Gwerthusiad Peilot Ymestyn Hawliau</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Lluniwyd er mwyn sefydlu llinell sylfaen ar gyfer gwasanaethau a chefnogaeth i bobl ifanc yng Nghymru y gellir ei defnyddio er mwyn mesur cynnydd. Mae grwpiau anodd eu cyrraedd a grwpiau diddordeb arbennig yn cael eu cynnwys er mwyn sicrhau bod materion amrywiaeth yn cael eu hystyried.</li> </ul>
<b>Rhyw</b>	<p><b>‘Arferion Da mewn perthynas â Cham-drin Domestig’</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae’r Tîm Ennyn Diddordeb Disgyblion wedi cyfrannu tuag at y canllawiau hyn sydd wedi eu hanelu tuag at ferched dan anfantais.</li> </ul>

## Is-adran Polisi Hyfforddiant, Sgiliau a Gyrfaoedd

<b>Agwedd ar Gydraddoldeb</b>	
<b>Cydraddoldeb Cyffredinol/Trosfwaol</b>	<p><b>Cwmnïau Gyrfa Cymru</b></p> <ul style="list-style-type: none"><li>Sicrhaodd cwmnïau Gyrfa Cymru bod gwasanaethau gwybodaeth, cyngor a chyfarwyddyd ar gael i bawb, beth bynnag eu rhyw, eu hethnigrwydd neu eu hanabledd. Roedd contract y Cynulliad gyda chwmnïau Gyrfa Cymru yn nodi'n benodol y dylent gydymffurfio â'r holl ddyletswyddau statudol sy'n gysylltiedig â chyfle cyfartal. Monitryd y defnydd o'r ddarpariaeth y tu allan i faes addysg ar lefel cwmni ar sail oedran, rhyw, ethnigrwydd ac anabledd. Byddai adroddiad blynyddol Gyrfa Cymru ar gyfer 2003-04 yn darparu datganiad cyffredinol ar y defnydd a wneir o wasanaethau.</li></ul> <p><b>Sefydlu'r Rhwydwaith Cyngorau Sgiliau Sector yng Nghymru</b></p> <ul style="list-style-type: none"><li>Is-adran Polisi Hyfforddiant, Sgiliau a Gyrfaoedd 2 oedd yn gyfrifol am gysylltu gyda'r Asiantaeth Datblygu Sgiliau Sector ynghylch rhoi trwyddedi i ddarpar Gyngorau Sgiliau Sector. Sefydlodd Is-adran Polisi Hyfforddiant, Sgiliau a Gyrfaoedd 2 rwydwaith o asiantaethau allweddol yng Nghymru er mwyn ymgynghori ynghylch gallu darpar Gyngorau Sgiliau Sector i gyfrannu tuag at agenda dysgu gydol oes Cymru yn unol â chylch gorchwyl ar gyfer Cyngorau Sgiliau Sector drwy'r DU. Roedd yr asesiad o gynlluniau busnes Cyngorau Sgiliau Sector a'r ymgynghoriad ag asiantaethau cefnogi allweddol yn cynnwys asesiad o'r camau y bwriadai'r Cyngor Sgiliau Sector eu cymryd er mwyn sicrhau cyfle cyfartal yn ei gynlluniau ar gyfer datblygu sgiliau mewn sector penodol.</li></ul> <p><b>Cyfrifon Dysgu Unigol</b></p> <ul style="list-style-type: none"><li>Monitro'r defnydd o Gyfrifon Dysgu Unigol Cymru er mwyn cael proffil yn seiliedig ar ryw, oedran, ethnigrwydd ac anabledd.</li></ul> <p><b>Prosiect Cynhwysiant Cymdeithasol</b></p> <ul style="list-style-type: none"><li>Bu Is-adran Polisi Hyfforddiant, Sgiliau a Gyrfaoedd 3 yn gweithio gyda Chanolfan Byd Gwaith Cymru er mwyn datblygu'r prosiect Cynhwysiant Cymdeithasol ym Mhillgwenlli, Casnewydd, a gynorthwyodd bobl a oedd dan anfantais yn y gymuned, yn enwedig pobl o leiafrifoedd ethnig, i gael gafael ar gyfleoedd ar gyfer hyfforddiant a</li></ul>

	<p>gwaith.</p> <p><b>Panel Cyngori ar Gyflogaeth Cymru</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Darparodd Is-adran Polisi Hyfforddiant, Sgiliau a Gyrfaoedd 3 gymorth ysgrifenyddol i Banel Cyngori ar Gyflogaeth Cymru, a fu'n cynghori Llywodraeth y Cynulliad ynghylch datblygu rhaglenni O Fudd-dâl i Waith yng Nghymru. Mae aelodaeth y Panel yn cynnwys cyfuniad amrywiol o ran oedran, rhyw ac ethnigrwydd. Roedd hyn yn sicrhau bod yr amrywiaeth sy'n gysylltiedig ag agenda'r Panel yn cael ei nodi a'i ystyried yn ei waith.</li> </ul>
<b>Oedran</b>	<p><b>Age Positive Cymru 2004</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Bu Is-adran Polisi Hyfforddiant, Sgiliau a Gyrfaoedd 3 yn gweithio gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau er mwyn datblygu a chyflwyno ymgyrch Age Positive Cymru, a oedd yn ceisio codi ymwybyddiaeth ymhlith cyflogwyr o fanteision gweithlu oedran amrywiol a'u hannog i gyflogi pobl sy'n 50 a throsodd.</li> </ul>
<b>Anabledd</b>	<p>Prosiect y Fargen Newydd ar gyfer Pobl Anabl</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Bu Is-adran Polisi Hyfforddiant, Sgiliau a Gyrfaoedd 3 yn gweithio mewn cysylltiad agos â chydweithwyr Adnoddau Dynol a Chanolfan Byd Gwaith Cymru ar brosiect i gynnig gwaith yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru i bobl anabl dan raglen y Fargen Newydd ar gyfer Pobl Anabl. Nod y prosiect peilot oedd recriwtio nifer bychan o bobl anabl i swyddi amrywiol yn y Cynulliad, ar gontractau cyfnod penodol. Ar ôl iddynt gael eu penodi, maent yn derbyn hyfforddiant a chymorth i'w helpu i gael y cymwyseddau sydd eu hangen er mwyn cystadlu am swyddi gweigion sy'n cael eu hysbysebu. Cwblhawyd y gwerthusiad a dengys y casgliadau bod y prosiect hwn wedi bod yn llwyddiannus.</li> </ul>
<b>Rhyw</b>	<p><b>'Merch sy'n Addysgydd' yng 'Ngwobrau Merch y Flwyddyn Cymru'</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Darparodd Is-adran Polisi Hyfforddiant, Sgiliau a Gyrfaoedd 2 nawdd ariannol ar gyfer categori penodol yng Ngwobrau Merch y Flwyddyn Cymru – Merch sy'n Addysgydd.</li> </ul> <p><b>Arian i Chwarae Teg</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Darparodd Llywodraeth Cynulliad Cymru gefnogaeth ariannol, drwy Is-adran Polisi Hyfforddiant, Sgiliau a</li> </ul>

	Gyrfaoedd 4, i weithgareddau craidd Chwarae Teg – corff sector gwirfoddol sy'n ceisio hybu datblygiad economaidd merched yng Nghymru. Derbyniodd swm ychwanegol hefyd er mwyn cefnogi gwaith prosiectau peilot sy'n ymwneud â chydbwysedd rhwng bywyd a gwaith.
<b>Hil</b>	<b>Strategaeth Genedlaethol Sgiliau Sylfaenol i Gymru</b> <ul style="list-style-type: none"> <li>Cefnogodd Strategaeth Genedlaethol Sgiliau Sylfaenol i Gymru y gwaith o gyflwyno rhaglenni blynyddoedd cynnar a theuluoedd i rieni a gofalmwr nad ydynt yn siarad Cymraeg na Saesneg fel iaith gyntaf.</li> </ul>

### Yr Is-adran Systemau Busnes

<b>Agwedd ar Gydraddoldeb</b>	
<b>Hil</b>	<b>Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion</b> <ul style="list-style-type: none"> <li>Rhoddyd y cyfrifiad ar waith fesul cymal er mwyn ymdrin â phob Ysgol Gynradd, Uwchradd ac Arbennig a gynhelir yn Ionawr 2004. Golyga hyn bod set lawn o ddata ar lefel disgyblion unigol ar gael am y tro cyntaf erioed, ac y bydd wedi ei gysylltu â data cyrhaeddiad yn y Gronfa Ddata Genedlaethol ar gyfer Disgyblion, a fydd yn cael ei lansio yn gynnar yn 2005. Mae'r Cyfrifiad yn cynnwys manylion am ryw, ethnigrwydd (gan gynnwys Sipsiwn Crwydrol), anghenion addysgol arbennig a hunaniaeth genedlaethol. Bydd y gronfa ddata felly'n galluogi llunwyr polisïau, ymarferwyr a rhanddeiliaid i wneud gwaith ymchwil manwl a gwerthuso perfformiad disgyblion o gefndiroedd gwahanol, cynnydd dros gyfnod o amser ac effaith ymyriadau polisi penodol.</li> </ul>

## DATBLYGU ECONOMAIDD A THRAFNIDIAETH

### Polisi Economaidd 4 – Datblygu Economaidd

<b>Cydraddoldeb Cyffredinol/Trosfwaol</b>	<b>Partneriaeth ddatblygu Cyfenter</b> <ul style="list-style-type: none"><li>Roedd y gweithgareddau allgymorth yn cynnwys cymryd rhan ym Mhartneriaeth Ddatblygu Cyfenter, gweithio gydag amrediad eang o gyrff yng Nghymru er mwyn dod o hyd i ffyrdd ymarferol o ddatrys y rhwystrau niferus sy'n wynebu grwpiau sy'n cael eu tangynrychioli wrth sefydlu busnes. Gwella'r ddelwedd drwy anfon argymhellion ac adroddiad ymchwil at gydweithwyr yn y Cynulliad.</li></ul>

### Masnach a Buddsoddi Cymru 1 – Masnach a Buddsoddi Cymru

<b>Agwedd ar Gydraddoldeb</b>	
<b>Cydraddoldeb Cyffredinol/Trosfwaol</b>	<b>Cyngor ynghylch Arddangosfeydd a Hysbysebion</b> <ul style="list-style-type: none"><li>Darparu cyngor busnes cyffredinol i bawb mewn arddangosfeydd a hysbysebion drwy Gymru gyfan – ar gael i bawb.</li></ul>
<b>Anabledd</b>	<b>Ffurf Llawlyfrau</b> <ul style="list-style-type: none"><li>Roedd pob llawlyfr a deunydd ysgrifenedig ar gael mewn teip bras a ffurfiau clywedol os gwneid cais amdanynt.</li></ul>
<b>Rhyw</b>	<b>Merch y Flwyddyn yng Nghymru</b> <ul style="list-style-type: none"><li>Parhaodd Masnach a Buddsoddi Cymru i gefnogi cinio mawreddog blynyddol Merch y Flwyddyn yng Nghymru.</li></ul>
<b>Hil</b>	<b>Cynhadledd Busnesau Lleiafrifoedd Ethnig</b> <p>Noddi'r Gynhadledd Busnesau Lleiafrifoedd Ethnig, gan gynnwys mynychu'r gynhadledd er mwyn darparu cyngor busnes.</p>

### Masnach Cymru Rhyngwladol – Masnach a Buddsoddi Cymru

<b>Agwedd ar Gydraddoldeb</b>	
<b>Hil</b>	<b>Cymorth Busnes Rhyngwladol</b> <ul style="list-style-type: none"><li>• Parhaodd Masnach Cymru Rhyngwladol i weithio fel partner yn y Rhaglen Cymorth i Fusnesau Ethnig er mwyn hybu manteision masnach ryngwladol i fusnesau. Yn ogystal â mynychu seminarau ac ati a gynhaliwyd yng Nghymru fel rhan o'r ymgyrch hyrwyddo, cynhaliwyd trafodaethau ynghylch taith fasnach ar y cyd i Fagladesh. Daeth Masnach Cymru Rhyngwladol yn bartner cysylltiol i Women in Business International a chynhaliwyd trafodaethau ynghylch y posibilrwydd o weithio gyda'i gilydd mewn marchnadoedd, yn enwedig yn y Gwlff.</li></ul>

### Prosiectau Mawr – Y Gyfarwyddiaeth Drafnidiaeth

<b>Agwedd ar Gydraddoldeb</b>	
<b>Cydraddoldeb Cyffredinol/Trosfwaol</b>	<b>Blaenraglen Cefnffyrdd</b> <ul style="list-style-type: none"><li>• Un o amcanion y Flaenraglen Cefnffyrdd, a gyhoeddwyd yn 2002 ac a adolygwyd yn 2004, oedd cynnal a gwella'r cynlluniau cefnffyrdd mewn modd cynaliadwy, gan ystyried anghenion cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol y genedl. Cai cynlluniau gwella ffyrdd eu cynllunio er mwyn gwneud ardaloedd yn fwy hygyrch, sicrhau nad yw cymunedau'n cael eu gwahanu i'r fath raddau o boptu ffordd a diwallu anghenion pobl anabl.</li></ul>

## ADNODDAU DYNOL

---

### Tîm Cydraddoldeb ac Amrywiaeth – Yr Is-adran Adnoddau Dynol (Pobl)

<b>Agwedd ar Gydraddoldeb</b>	
<b>Cydraddoldeb Cyffredinol/Trosfwaol</b>	<ul style="list-style-type: none"><li>• Roedd pob agwedd ar waith y Tîm Cydraddoldeb ac Amrywiaeth yn ymwneud â'r agenda cydraddoldeb ac amrywiaeth.</li></ul> <p><b>Polisi Urddas yn y Gweithle</b></p> <ul style="list-style-type: none"><li>• Gwnaethpwyd gwerthusiad llawn o'r Polisi Urddas yn y Gweithle, a lanswyd yn Nhachwedd 2002, dan arweiniad y Tîm Cydraddoldeb ac Amrywiaeth a oedd wedi penodi ymgynghorydd allanol i werthuso'r polisi'n llawn o'r tu allan. Dechreuwyd ar y gwerthusiad yn Rhagfyr 2003 ac mae wedi tynnu sylw at agweddau ar y polisi sydd angen eu gwella. Bwriad y polisi o'r dechrau oedd atal aflonyddu o bob math yn unol â phob agwedd ar gydraddoldeb ac amrywiaeth (h.y. hil, anabledd, rhyw, oedran, crefydd a chred a thueddfryd rhywiol).</li></ul>
<b>Oedran</b>	<p><b>Cyngor i Staff ynghylch Rheoliadau Cyflogaeth</b></p> <ul style="list-style-type: none"><li>• Bu'r Tîm Cydraddoldeb ac Amrywiaeth yn cynghori'r staff presennol (trwy gyfarwyddyd mewnwydd) ac aelodau newydd (drwy hyfforddiant cynefino) ynghylch y rheoliadau cyflogaeth newydd yn ymwneud ag oedran a fydd yn dod i rym yn Rhagfyr 2006.</li></ul>
<b>Anabledd</b>	<p><b>Blwyddyn Ewropeaidd Pobl Anabl 2003</b></p> <ul style="list-style-type: none"><li>• Trefnodd y Tîm Cydraddoldeb ac Amrywiaeth, mewn partneriaeth â'r Sefydliad Dyslecsia Oedolion, Ddiwrnod Ymwybyddiaeth o Ddyslecsia er mwyn cynyddu ymwybyddiaeth o ddyslecsia, dyspracsia ac anableddau cudd ym Mehefin 2003. Roedd nifer fawr o bobl yn bresennol.</li></ul> <p><b>Rhwydwaith Cynghori a Chefnogi Anabledd</b></p> <ul style="list-style-type: none"><li>• Parhaodd y Tîm Cydraddoldeb ac Amrywiaeth i chwarae rhan weithredol fel aelod o'r Rhwydwaith Cynghori a Chefnogi Anabledd.</li></ul>

	<p><b>Cynllun Lleoliadau Haf Cyflym</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Bu'r Tîm Cydraddoldeb ac Amrywiaeth yn hybu ac yn cydlynu Cynllun Lleoliadau Haf Cyflym 2003 (Menter gan Swyddfa'r Cabinet) er mwyn darparu cyfleoedd ar gyfer lleoliadau haf i ymgeiswyr anabl. Roedd y cynllun lleoliadau haf yn cynnig lleoliadau mewn gwaith cyflogedig am gyfnod o 8 wythnos ar gyfer ymgeiswyr addas ar gyfer y trywydd cyflym. Cynigiodd Cynulliad Cenedlaethol Cymru leoliadau i 4 ymgeisydd ac o'r rhain, derbyniodd 3 ymgeisydd y cynigion a dechreuasant ar eu lleoliadau yng Ngorffennaf 2003.</li> </ul> <p><b>Cynllun Lleoliadau Haf ar gyfer Pobl Anabl</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Bu'r Tîm Cydraddoldeb ac Amrywiaeth yn gwneud gwaith paratoawl yn barod ar gyfer Cynllun Lleoliadau Haf ar gyfer Pobl Anabl 2004 er mwyn hybu'r cynllun a dod o hyd i leoliadau addas i'w cynnig i ymgeiswyr ar gyfer Haf 2004. Dechreuodd y gwaith yn Ionawr 2004.</li> </ul>
<p><b>Rhyw</b></p>	<p><b>Cynllun Talebau Gofal Plant Cymru</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Roedd y Tîm Cydraddoldeb ac Amrywiaeth wedi gwneud llawer o waith paratoawl yn barod ar gyfer lansio cynllun Talebau Gofal Plant Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Byddai'r cynllun hwn yn darparu talebau gofal plant fel budd-dal i bob rhiant sydd â phlant oed ysgol feithrin er mwyn helpu i sicrhau cydbwysedd rhwng gwaith a bywyd i'r ddau ryw. Roedd y gwaith a wnaethpwyd yn cynnwys ymgynghori gyda Chyllid y Wlad er mwyn sicrhau cydymffurfiant â threfniadau, ymarfer caffael er mwyn sicrhau darparwr talebau gofal plant a llunio canllawiau ar gyfer yr holl staff.</li> </ul> <p><b>Cynyddu Ymwybyddiaeth o Drais yn y Cartref</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae'r Tîm Cydraddoldeb ac Amrywiaeth wedi datblygu a lansio tudalennau mewnwyd er mwyn cynyddu ymwybyddiaeth o Drais yn y Cartref a darparu ffynhonnell gwybodaeth a chefnogaeth i'r rhai hynny sy'n dioddef trais yn y cartref yn Hydref 2003.</li> </ul> <p><b>Diwrnod Rhyngwladol Menywod</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Bu'r Tîm Cydraddoldeb ac Amrywiaeth yn hybu Diwrnod Rhyngwladol Menywod (8<sup>fed</sup> Mawrth 2004). Er mwyn cynyddu ymwybyddiaeth o'r diwrnod, aeth y Tîm Cydraddoldeb ac Amrywiaeth ati i baratoi stondin ar gyfer y</li> </ul>

	<p>cyntedd ym Mharc Cathays 2 a oedd yn hyrwyddo'r holl bolisiâu a'r trefniadau y mae'r Cynulliad yn eu cynnig er mwyn cefnogi merched yn y gweithle. Hysbysebwyd y diwrnod hwn drwy eitem tudalen newyddion a oedd yn cynnwys cysylltiadau â'r holl gyfarwyddyd perthnasol yn y Tudalennau Mewnwyd Adnoddau Dynol.</p> <p><b>Diwrnod Rhyngwladol</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Bu'r Tîm Cydraddoldeb ac Amrywiaeth yn hyrwyddo'r Diwrnod Rhyngwladol ar gyfer Diddymu Trais yn Erbyn Merched (25 Tachwedd 2003). Mewn partneriaeth ag Ochr yr Undebau Llafur, roedd hyn yn cynnwys gwerthu rhubanau gwynion er mwyn hyrwyddo'r Fenter hon gan y Cenhedloedd Unedig a chynyddu ymwybyddiaeth o fodolaeth gwefan y Cynulliad ar Drais yn y Cartref.</li> </ul> <p><b>Archwiliad Cyflog Cyfartal</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Cynhaliwyd Archwiliad Cyflog Cyfartal gan y Tîm Cyflogau yn Awst 2003 er mwyn sicrhau bod y cyflogau presennol yn deg ac yn gyfartal.</li> </ul> <p><b>Diwrnod Merched i'r Gwaith</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Diwrnod Merched i'r Gwaith (18 Mawrth 2004) – bu'r Tîm Cydraddoldeb ac Amrywiaeth yn hyrwyddo Diwrnod Merched i'r Gwaith Cymdeithas y Geidiau drwy drefnu diwrnod ar gyfer merched staff y Cynulliad. Yn ystod y diwrnod cafwyd cyflwyniadau gan uwch swyddogion benywaidd a oedd yn awyddus i rannu eu profiadau gyda'r gwesteion, cyflwyniad fideo dan y teitl "Breaking the Glass Ceiling," cyflwyniadau gan swyddogion sy'n rheoli gyrfa a theulu, cinio gyda Phennaeth yr Is-adran Adnoddau Dynol (Pobl) a'r Swyddog Cyfle Cyfartal a thaith o amgylch Adeilad y Pierhead.</li> </ul> <p><b>Meincnodi Cyfle Nawr</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Bu'r Tîm Cydraddoldeb ac Amrywiaeth yn cymryd rhan yn yr Ymarfer Meincnodi Cyfle Nawr blynyddol a arweiniodd at Wobr Aur a'r marciau uchaf hyd yn hyn i'r Cynulliad.</li> </ul>
<b>Hil</b>	<p><b>Ymgyrch 'Race to Change' De Cymru</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Bu'r Tîm Cydraddoldeb ac Amrywiaeth yn cynrychioli Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn Ymgyrch 'Race to Change' De Cymru. Bu'r Tîm Cydraddoldeb ac Amrywiaeth yn cymryd rhan mewn ymarfer ymgynghori er</li> </ul>

	<p>mwyn asesu profiadau pobl yn ardal De Cymru o faterion yn ymwneud â hil. Canlyniad yr ymgynghoriad hwn oedd drama yn seiliedig ar brofiadau go iawn sy'n cael ei chyflwyno wedyn fel cyfle i ddysgu a datblygu drwy fforwm theatr. Yn ychwanegol at hyn, bu'r Tîm yn hyrwyddo'r fenter fforwm theatr er mwyn cael enwebiadau gan wahanol Is-adrannau'r Cynulliad er mwyn galluogi staff i gael yr hyfforddiant amrywiaeth hwn. Erbyn Mawrth 2003, roedd 105 o bobl yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru wedi derbyn yr hyfforddiant hwn.</p> <p><b>Rhaglen Ddatblygu'r Haf ar gyfer Lleiafrifoedd Ethnig</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Bu'r Tîm Cydraddoldeb ac Amrywiaeth yn gwneud gwaith paratowl yn barod ar gyfer Rhaglen Ddatblygu'r Haf ar gyfer Lleiafrifoedd Ethnig er mwyn hyrwyddo'r Cynllun a dod o hyd i leoliadau addas i'w cynnig i ymgeiswyr ar gyfer Haf 2004.</li> </ul> <p><b>Mudiadau Lleiafrifoedd Ethnig yng Nghymru ac Ymwybyddiaeth o Recriwtio</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Ers Mai 2003, mae'r Tîm Cydraddoldeb ac Amrywiaeth wedi bod yn anfon manylion am bob hysbyseb recriwtio allanol i fudiadau lleiafrifoedd ethnig yng Nghymru.</li> </ul>
<p><b>Tueddfryd Rhywiol</b></p>	<p><b>Cyfarwyddyd ar Reoliadau Cydraddoldeb Cyflogaeth (Tueddfryd Rhywiol) 2003 i Staff</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Cynhyrchodd y Tîm Cydraddoldeb ac Amrywiaeth gyfarwyddyd ar gyfer staff er mwyn egluro'r Rheoliadau Cydraddoldeb Cyflogaeth (Tueddfryd Rhywiol) 2003. Roedd yr wybodaeth hon i'w gweld ar y Mewnrwyd ac fe'i darperid i bob aelod newydd fel rhan o'u rhaglen gynefino. Lanswyd y cyfarwyddyd hwn gydag eitem tudalen newyddion i gyd-fynd â gweithredu'r rheoliadau yn Rhagfyr 2003.</li> </ul>